# Adroddiad Blynyddol

## gan Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

*"Cyflawni mwy, yn well ac yn gynt"*

Adrodd ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Gwynedd 2011/12





**ATODIAD 1**

☎ 01286 679549 / 679223
✉ gcgc@gwynedd.gov.uk

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**Mynegai** Tudalen

1. Cyflwyniad 3
2. Crynodeb o'r prif faterion 6
3. Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd 9
4. Adolygiad o Wasanaethau Plant a Theuluoedd 11
5. Adolygiad o Wasanaethau Oedolion 21
6. Adolygiad o Wasanaethau Busnes 37
7. Casgliadau 43

**Atodiadau**

1. Crynodeb o berfformiad 2011/12 44
2. Cyd-destun a gwybodaeth am Wynedd 45
3. Blaenoriaethau 2012-13 50
4. Rhestr termau 51
5. Cyswllt defnyddiol 55

# 1. Cyflwyniad

Pleser yw cyflwyno Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2011/12.

Pwrpas yr Adroddiad hwn yw rhannu gwybodaeth am berfformiad ac effeithlonrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol 2011/12 ac amlinellu'r materion pwysicaf i roi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae maes Gwasanaethau Cymdeithasol yn eang iawn ac mi fyddai'n anodd iawn i'r adroddiad yma gyfarch yr holl faterion a meysydd gwaith mewn modd sy'n gwneud teilyngdod i'r gwaith a'r cyrhaeddiad yn y gwahanol feysydd. Felly adroddiad trosolwg sydd yma.

Yng Nghymru mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dderbyn cyfrifoldeb personol i adrodd yn gyhoeddus ar berfformiad a'r profiad o ddarparu gwasanaethau mewn cyd-destun lleol. Y bwriad yw uchafu cyfrifoldeb am atebolrwydd mewn ffordd dryloyw a hawdd ei ddeall. Cyflwynwyd y drefn yma yn 2010 ac mae disgwyl i "Bill Gwasanaethau Cymdeithasol 2012" gadarnhau ac atgyfnerthu'r disgwyliad a'r cyfrifoldeb. Mae'n broses o hunan arfarnu, lle rwyf i'n cymryd i ystyriaeth yr ystod o wybodaeth a phrofiadau sy'n cael effaith ar allu Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau dibynadwy a chynaliadwy o'r safon uchaf. Er bod hon yn gyfrifoldeb penodol ar y Cyfarwyddwr Statudol rhaid cyflawni'r gwaith a'r dasg mewn modd sy'n adlewyrchu a grymuso'r cydweithio sy'n rhan annatod o'r maes.

Eto eleni llwyddwyd i wella ein perfformiad gan gynnwys:

- gwelliant sylweddol yn ein cyrhaeddiad wrth ystyried dangosyddion perfformiad ym maes plant ac oedolion
- ein gallu i ddarparu gwasanaethau o fewn dyraniad ariannol y Cyngor
- llwyddiant i weithredu ar y rhaglenni arbedion o fewn cynlluniau'r Cyngor

Yn bennaf oll, llwyddwyd i wneud hyn o fewn fframwaith lle mae lefel uchel o gytuno ynglŷn â'r cyfeiriad strategol - sef hyrwyddo annibyniaeth yn hytrach na dibyniaeth. Gwelwyd cynnydd yn natur y gofyn ond hefyd tystiolaeth o lwyddiant cychwynnol y rhaglen ail gyfeirio gwasanaethau.

Un peth sy'n gyson am faes gwaith Gwasanaethau Cymdeithasol yw mai'r peth pwysicaf yw profiad y bobl sy'n derbyn Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn cydweithio ag unigolion, teuluoedd a chymunedau sy'n fregus ac yn wynebu her neu broblemau yn eu bywydau. Yn gynyddol mae hyn yn wir am ganran uwch o'r boblogaeth ac, erbyn hyn teg yw tybio y bydd pawb, rhywbryd neu'i gilydd yn dod i gysylltiad â'r gwasanaeth - boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Felly rhan bwysig o'r gwaith yw darparu gwasanaethau ar gyfer poblogaeth heddiw tra hefyd yn cynllunio ar gyfer y rhai fydd angen gwasanaethau yn y dyfodol. Mae angen sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir o'r safon uchaf, yn cwrdd ar angen ac yn gyson a'r hyn mae pobl Gwynedd yn dweud eu bod yn dymuno eu cael.

Rhan bwysig o'r dysgu yw bod yr elfen cynllunio'r gwasanaeth yn hanfodol ac angen ei ystyried ochr yn ochr â'r gwasanaethau rheng flaen. Mae'r rhaglen cynllunio sy'n wynebu'r

Gwasanaeth heddiw yn cynnig bod tan fuddsoddi o ran amser ac argaeledd staff yn y blynyddoedd a fu. Yn sgil hyn mae'r her heddiw sy'n wynebu swyddogion a'r Cyngor i sicrhau isadeiledd addas yn un sylweddol. Er bod cynnydd wedi ei wneud wrth weithredu ar y cynlluniau newid, gwelwyd eto eleni bod y dasg yn un enfawr. Hyn o fewn y cyd-destun y wasgfa ariannol, a'r angen i wneud mwy am lai. Nid yw'r rhagolygon am y dyfodol, gan gynnwys maint y pwrs cyhoeddus ddim haws ac mae tystiolaeth gynyddol yn cadarnhau bod y sefyllfa economaidd yn taflu mwy o bobl i mewn i angen dybryd.

Ar yr un pryd mae nifer cynyddol o bobl hŷn gyda'r angen a'r gallu i dalu am eu gofal eu hunain heb orfod dibynnu ar y pwrs cyhoeddus. Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i sicrhau bod yna ystod addas o wasanaethau gofal fforddiadwy ar eu cyfer, sy'n parchu ac yn cryfhau eu gallu i fod yn annibynnol.

Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gydag aelodau staff, y cyhoedd a phartneriaid sy'n gweithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae wedi ei baratoi'n unol a'r gofynion cyfreithiol yn "Rôl ac Atebolrwydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol" (Mehefin 2009) a'r "Fframwaith Cyflwyno Adroddiad Blynyddol". Bydd gwasanaethau arolygu, megis Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) hefyd yn defnyddio'r adroddiad hwn er mwyn cynllunio eu rhaglen arolygu ar gyfer Cyngor Gwynedd.

Mae'r broses o lunio'r adroddiad wedi cynnwys sawl cam, gan gynnwys:

- Paratoi hunanasesiadau o effeithlonrwydd a pherfformiad y gwasanaeth
- Diwrnod "herio" (20 Chwefror 2012) yng nghwmni ystod o bartneriaid a chynrychiolwyr defnyddwyr
- Sesiynau gyda staff yr Adran fis Medi a Hydref 2012

Mi fydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ac yn gyhoeddus ar 21 Mehefin 2012.

Dyma gyfnod cyffrous a heriol ym maes gofal. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y "Bill Gwasanaethau Cymdeithasol" sy'n gosod cyfeiriad strategol ar gyfer y maes gwaith am y degawd nesaf. Mae'r neges yn gyson a'r hyn sydd yng Nghynllun Tair Blynedd Cyngor Gwynedd sef, bod angen parhau a'r rhaglen drawsnewidiol sy'n berthnasol i'r maes oedolion a phlant, ac yn grymuso unigolion a hybu annibyniaeth. Rhaid cyd weithio gyda'u teuluoedd a gofalwyr o fewn fframwaith cymunedol. Rhaid uchafu disgwyliad a dealltwriaeth o safon dda tra ar yr un pryd cael pen busnes cadarn er mwyn uchafu effeithlonrwydd ariannol a buddsoddiad priodol ar gyfer y dyfodol.

Rhaid pwysleisio eto eleni nad yw parhau i ddarparu gwasanaethau yn yr un ffordd yn opsiwn. Mae'r neges yn cryfhau bod dymuniad am wasanaethau mwy ataliol cymunedol lle mae hyn yn bosib. Gwelir tystiolaeth gynyddol o'r angen i ail gyfeirio er mwyn sicrhau gwasanaethau fforddiadwy. Ni fydd modd sicrhau gwasanaethau addas ar gyfer trigolion heddiw ac yfory heb ddad-gomisiynu rhai o'r gwasanaethau cyfredol. Mae hon yn neges glir i holl staff yr Adran, y Cyngor a'n partneriaid.

Hoffaf gymryd y cyfle i ddiolch am ymrwymiad a gwaith caled ein holl staff, darparwyr a'n partneriaid wrth sicrhau fod plant, pobl ifanc, oedolion bregus a'u teuluoedd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib. Mae hyn wedi ei gydnabod a'i atgyfnerthu drwy sawl archwiliad allanol ac adborth a dderbyniwyd yn uniongyrchol gan ein defnyddwyr. Rwy'n fawr obeithio fod yr adroddiad hwn yn cyflwyno darlun clir o'r hyn sy'n cael ei gyflawni a'n hymrwymiad i welliant parhaus.

Pwysleisir bod croeso i unrhyw un wneud ymholiad gan ofyn am fwy o wybodaeth trwy gysylltu'r a'r cyfeiriad ar ddiwedd yr Adroddiad. Mae'r adroddiad hefyd wedi cael ei gynllunio'n electroneg gyda linc at wahanol adroddiadau cefndirol sy'n cynnig gwybodaeth bellach.



**Gwen Carrington**

**Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Mai 2012**

## 2. Crynodeb o’r prif faterion

Mae angen i Gyngor Gwynedd, a’r gwasanaethau sy’n gyrru ymlaen yr agenda gwasanaethau cymdeithasol, wneud penderfyniadau anodd a heriol a’u rhoi ar waith os ydym am sicrhau gwasanaethau cynaliadwy a fforddiadwy i’r dyfodol. Rwy’n parhau i fod o’r farn y gallwn lwyddo i sicrhau gwasanaethau o’r ansawdd uchaf os byddwn yn ymgymryd â’r her hon, ond rwyf hefyd yn hynod bryderus os bydd oedi’n dod yn nodwedd o’r agenda trawsnewid yng ngwasanaethau oedolion a phlant.

Cyflawnwyd llawer iawn yn sgil lefel uchel ymroddiad swyddogion, partneriaid ac aelodau ond nid yw hyn yn ddigon yng nghyd-destun gofyn uwch am wasanaethau, y costau a’r disgwyliadau cynyddol. Mae’r gwasanaeth eisoes dan bwysau wrth geisio darparu gwasanaethau i fwy o bobl, cyflawni ar yr agenda arbedion a gweithredu’r agenda trawsnewid a gadarnhawyd yn flaenorol gan y Cyngor fel yr amlinellwyd yn ei Gynllun Tair Blynedd. Pery hyn yn her sylweddol.

Mae sawl adolygiad ac adroddiad annibynnol wedi cwestiynu a oes digon o gapasiti i gyflawni ar yr agenda hwn. Ond mae’r gwasanaeth yn cydnabod bod yr awdurdod eisoes yn dyrannu cyllid goruwch y fformwla gydnabyddedig. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn effeithlon wrth sicrhau ein bod yn defnyddio’r adnoddau sydd ar gael yn briodol ac osgoi dyblygu tasgau ac ymdrechion sy’n sugno egni a brwdfrydedd.

Tra’n derbyn y gallai’r Cyngor newydd a Llywodraeth Cymru fod eisiau diwygiadau i’r rhaglen waith a drefnwyd, ni ragwelir ar hyn o bryd y cyflwynir unrhyw raglenni gwaith mawr newydd yn ystod 2012/13. Cyfnod fydd hwn o gyflawni'r hyn a gytunwyd eisoes. Cynhwysir y rhaglenni gwaith manwl yng Nghynlluniau Busnes y gwasanaeth. Mae’r Adran yn ymroddedig i gyflawni a “gwneud yr hyn y mae’n ddweud”, cyflawni ar ymrwymiadau datganedig ac osgoi oedi.

Gan ystyried yr holl wahanol themâu a negeseuon yn yr adroddiad hwn, ceir tair prif flaenoriaeth:

**1 Pobl**

Rhaid i ni barhau i symud ymlaen a gweithredu ein blaenoriaethau datganedig o ymestyn argaeledd gwasanaethau i bobl yn eu cartrefi a’u cymunedau.

**O fewn gwasanaethau oedolion rhaid i ni fod â’r flaenoriaeth ganlynol**

- ymestyn ail-alluogi a’r defnydd o dechnoleg gynorthwyol i roi cefnogaeth well i bobl allu aros yn eu cartref
- parhau i ddatblygu a gweithredu gwasanaethau priodol i gefnogi gofalwyr a gofal tymor byr sy’n cynnwys darpariaeth yn ystod y dydd ac ailwampio gofal dydd
- parhau i weithio gyda chynlluniau tai gan gynnwys darpariaeth gofal ychwanegol a sicrhau addasiadau amserol a phriodol

**Yn y gwasanaethau plant canolbwyntir ar:**

- barhau i recriwtio a chefnogi gofalwyr maeth, gan gynnwys gofalwyr sy'n berthnasau neu ffrindiau
- ymestyn argaeledd cefnogaeth tymor byr a seibiant ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd
- ymestyn argaeledd llety addas ar gyfer rhai'n gadael gofal ac oedolion ifanc agored i niwed drwy wella comisiynu a threfniadau gyda'r Bartneriaeth Tai.

**Y gweithlu – Darperir Gwasanaethau Cymdeithasol gan lu o staff ar draws y sector gofal cymdeithasol**

Yn ystod 2012/13 canolbwyntir yn barhaus ar sicrhau bod y staff yn cael y gefnogaeth briodol i gyflawni ar yr agenda angenrheidiol. Llwyddir i wneud hyn drwy

- fonitro parhaus ar ddisgwyliadau llwyth gwaith ar draws y gwasanaeth
- sicrhau bod y staff yn cael eu goruchwylio'n briodol
- cydweithio ag Adnoddau Dynol corfforaethol, datblygu ac ymestyn gweithio hyblyg ar gyfer y rhai a gyflogir gan yr Adran

## 2 Sialensiau Ariannol a Rheoli ein Hadnoddau

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwario arian cyhoeddus ac yn codi am wasanaethau ar yn rhai sy'n gymwys i dalu. Gyda hyn daw lefel uchel o gyfrifoldeb dros sicrhau effeithlonrwydd ac ansawdd. Er y cyflawnwyd llawer iawn dros y blynyddoedd diwethaf, rydym yn rhy bell o'r fan y mae angen i ni fod ac mae'r risg, os na fyddwn yn cyflymu, yn cynyddu. Os byddwn yn parhau i dalu premiwm cost ar wasanaethau presennol bydd llai ar gael ar gyfer gwasanaethau ataliol a gwasanaethau anstatudol eraill a ddarperir gan y Cyngor.

Bydd ffocws parhaus ar yr agenda arbedion gan ailddatgan y gred y bydd cyflawni'r hyn a gytunwyd eisoes mewn egwyddor yn cyfrannu'n helaeth tuag at gyrraedd y nod.

**O fewn gwasanaethau oedolion, mae angen i ni barhau i newid ffocws gwasanaethau:**

- ail-alluogi - helpu pobl adennill annibyniaeth
- technoleg gynorthwyol – defnyddio teleofal ac offer i gadw pobl gartref a
- sicrhau amrywiaeth, ansawdd ac argaeledd llety (tai gofal ychwanegol, preswyl, nyrsio), gweithio gyda'r Bartneriaeth Tai, y Bwrdd Iechyd a'r darparwr ynghylch trefniadau comisiynu presennol a thymor hwy.

**O fewn gwasanaethau plant mae angen i ni:**

- ddeall yn well beth sy'n dylanwadu ar gostau gwasanaethau, natur a'r pethau sy'n gyrru gwariant a phaham y mae darparu gwasanaethau yn ddrutach yng Ngwynedd nac mewn awdurdodau cymharol eraill
- cynyddu argaeledd gwasanaethau egwyl fer a lleihau nifer y plant sâl ac anabl sy'n cael eu derbyn i mewn i ofal
- parhau i leihau'r ddibyniaeth ar asiantaeth gwasanaethau maethu drwy gynyddu argaeledd a chefnogaeth gofalwyr maeth sydd wedi'u cofrestru gyda Chyngor Gwynedd

**3 Y Gymuned**

Rhaid i ni'n gynyddol adnabod ac ymateb i'r angen i helpu pobl i barhau yn eu cartrefi a'u cymunedau lle y mae'n ddiogel ac yn briodol i wneud hynny. Nid yw hyn ynghylch lleoliad daearyddol yn unig, ond hefyd ynghylch teulu, ffrindiau a "theimlad o berthyn". Gwyddom fod teimlad o berthyn yn bwysig wrth ystyried gwytnwch, iechyd a lles oedolion a phlant. Y ng Ngwynedd mae gwasanaethau plant ac oedolion eisoes yn cael eu trefnu yn ôl y tair ardal, Arfon Dwyfor a Meirionnydd.

**Ein blaenoriaethau datganedig ar gyfer 2012/13 fydd:**

- parhau gyda datblygiad ac argaeledd gwybodaeth i hwyluso a chefnogi aelodau'r teulu a'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r wefan a gwaith a gomisiynwyd gan yr Adran.
- parhau i gefnogi datblygiad gwasanaethau mewn ardaloedd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a'r trydydd sector
- parhau i ddatblygu gwasanaethau gyda phartneriaid, gan gynnwys y darparwyr annibynnol, y trydydd sector a darpariaeth arall gan yr awdurdod lleol sy'n ymestyn argaeledd a mynediad at wasanaethau ataliol yn lleol

Bu datblygiadau i'w croesawu gyda BIPBC yn ystod 2011/12 wrth i benodiadau i rai swyddi allweddol gael eu cadarnhau ond pery'r angen i gryfhau cynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd ar lefel Gwynedd.

Delir bod y rhaglen waith a amlinellwyd yn cefnogi uchelgais "Cynllun Tair Blynedd Cyngor Gwynedd" ynghyd astrategaeth deng mlynedd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol "Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy" a'r "Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol" a gyhoeddwyd yn ystod 2011/12. Tra'n cefnogi datblygiad gwasanaethau ataliol byddwn yn parhau i flaenoriaethu'r rhai mwyaf agored i niwed o fewn y meini prawf cymhwyso a bennwyd gan Gyngor Gwynedd.

# 3. Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd

Mae'r Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd yn prynu a darparu ystod o wasanaethau trwy dair prif uned sef, Gwasanaeth Plant, Gwasanaeth Oedolion a'r Gwasanaeth Busnes. Mae'r Adran hefyd yn cynnwys elfennau o'r cyfrifoldebau Tai statudol sy'n parhau ers trosglwyddo sef, digartrefedd, teithwyr a sipsiwn, cefnogi pobl a gorfodaeth. Mae'r Uwch Reolwr Tai yn aelod o'r tîm rheoli Tai & Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn ychwanegol, caiff cyfran o'r ddarpariaeth gofal gan y Cyngor ym maes preswyl, gofal dydd a gofal cartref ei gomisiynu gan Adran Hamdden a Darparu y Cyngor.

Gweledigaeth yr Adran yw…


***"Cefnogi defnyddwyr ein gwasanaeth i fyw bywyd annibynnol, diogel a bodlon."***

Prif bwrpas Gwasanaethau Cymdeithasol yw diogelu plant ac unigolion bregus a'u cefnogi i fyw bywydau mor annibynnol â phosib o fewn eu cymunedau. Byddwn yn gwneud hyn drwy gomisiynu gwasanaethau effeithlon a chost effeithiol o'r safon uchaf yn unol â'r gofynion statudol. Ein nod yw trin defnyddwyr gwasanaeth yn onest a theg. Bydd defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr lle'n briodol yn ganolog yn y broses o asesu anghenion a gwneud penderfyniadau wrth gynllunio gwasanaethau.

Prif bwrpas Gwasanaeth Tai yw darparu cefnogaeth i drigolion mwyaf difreintiedig ac anghenus Gwynedd sy'n ddigartref neu yn byw mewn tai anaddas neu yn debygol o golli eu tenantiaeth. Hefyd i gynorthwyo pobl anabl ac oedrannus i aros yn eu cartrefi drwy drefnu addasiadau i'w tai.

Mae'r Adran yn cyflogi dros 560 o staff ac yn 2011-12, roedd yn gyfrifol am gyllid o £60,863,000 oedd yn 29.8% o wariant y Cyngor. Mae'n faes sy'n ymdrin yn uniongyrchol a thrigolion mwyaf bregus Gwynedd.

Dosrannwyd cyllideb yr Adran yn 2011-12 fel a ganlyn:




Darperir gwasanaethau o fewn trefniadau partneriaeth lle mae cyd-ddibyniaeth uchel gyda nifer o Adrannau eraill y Cyngor gan gynnwys "Darparu a Hamdden", "Economi a Chymuned" a "Gofal Cwsmer" a hefyd gydag asiantaethau eraill megis BIPBC, y Sector Gofal Annibynnol a'r Trydydd Sector a'r Cymdeithasau Tai.

Mae Partneriaethau a gweithio mewn modd cydlynnus yn allweddol i ddarparu gwasanaethau effeithiol ym maes plant ac oedolion. Yn hyn o beth mae'r gwasanaeth yn cyflawni'r rhaglen waith trwy nifer o bartneriaethau allweddol. Er bod newidiadau sylweddol yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd i resymoli partneriaethau mae'r Gwasanaeth yn aelodau allweddol yn y canlynol:

- Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc
- Partneriaeth Iechyd a Lles
- Bwrdd Lleol Diogelu Plant (Môn & Gwynedd)
- Fforwm Diogelwch Oedolion Bregus (POVA) ( Môn & Gwynedd)
- Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd
- Partneriaeth Tai Gwynedd
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn

# 4. Adolygiad o Wasanaethau Plant a Theuluoedd

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu a chomisiynu ystod o wasanaethau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n cynnwys:

- Asesu Angen
- Plant Anabl a Sâl
- Cefnogi Teuluoedd a Phlant Mewn Angen
- Gadael Gofal
- Gofalwyr Ifanc
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
- Maethu a Gwasanaethau i Blant Mewn Gofal
- Mabwysiadu a threfniadau Tymor Hir (Permanency)
- Diogelu Plant

Bwriad Gwasanaethau Cymdeithasol yw ceisio diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc mwyaf bregus cymdeithas er mwyn eu galluogi i gyrraedd eu llawn potensial.

Mae yna oddeutu 37,500 o blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed yn byw yng Ngwynedd. Nid pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yng Ngwynedd ar hyn o bryd sy'n gallu cael mynediad at y cyfleoedd, gwasanaethau ac adnoddau a fydd yn eu galluogi i gyrraedd a chyflawni eu llawn botensial, oherwydd cyfuniad o amgylchiadau personol, teuluol, cymdeithasol, economaidd a daearyddol.

> *"Your demeanour has been exceptional towards C, you are the only Social Worker she has ever grown to trust…..You can say you have done a good job and are able to leave a well cared for baby in part due to your patient and caring attitude."*
> (Dyfyniad o lythyr gan berthynas at Weithiwr Cymdeithasol)

Bu i'r Adran ystyried perfformiad ac effeithlonrwydd ein gwasanaethau ar draws y rhaglen waith gan ystyried mynediad at wasanaethau, ystod a safon gwasanaethau a sut i hyrwyddo annibyniaeth. Roedd 2011/12 yn flwyddyn hynod brysur a llwyddiannus wrth i ni ganolbwyntio ar gynnal safonau a pherfformiad mewn nifer o feysydd. Braf yw cael adrodd bod cynnydd sylweddol iawn wedi ei adrodd eleni ar feysydd a adnabuwyd fel rhai oedd i'w gwella yn 2010/11 ac mae hyn yn tystio ymroddiad a gwaith caled y gweithlu a'r rheolwyr o fewn i'r Adran.

Yn 2011/12, bu i'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd finiogi eu dull o gofnodi cyfeiriadau. Y bwriad yw adlewyrchu yn fwy cywir y ceisiadau a wneir am wasanaeth drwy gyfeiriad yn hytrach na chynnwys yr holl hysbysiadau a gyfeirir gan asiantaethau eraill sy'n gyfeiriadau anaddas.. O ganlyniad i'r newid yn y broses o gasglu'r data yma, nid oes modd eleni i wneud cymariaethau 'tebyg am debyg' gyda blynyddoedd blaenorol.

Yn dilyn gwaith penodol i wella perfformiad yn 2011/12 gwelwyd fod 75% o ddangosyddion cenedlaethol ym maes gofal plant wedi gwella neu aros yn sefydlog. O'r 25% sydd wedi llithro, roedd 6 dangosydd dal yn perfformio'n gymharol neu'n well na chyfartaledd Cymru.

O'r gweddill gweler fod 5 wedi llithro ac yn perfformio'n is na chyfartaledd Cymru. Bydd y gwasanaeth yn rhoi camau penodol mewn lle er mwyn sicrhau gwelliant o fewn y meysydd yma yn 12/13.

Bu i'r Gwasanaeth gwrdd â'r her a osodwyd ar ddiwedd 2010/11 ac erbyn Ebrill 2012 mae ein perfformiad mewn meysydd allweddol megis penderfyniadau 24 awr, asesiadau cychwynnol, adolygiadau statudol plant mewn gofal, cynlluniau llwybr i bobl ifanc yn gadael gofal a sefydlogrwydd lleoliadau yn dda. Gwelwyd gwelliant derbyniol iawn o gymharu â 2010-11.

Mae hyn yn galonogol iawn, yn enwedig gan fod cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau. Roedd y nifer o blant a phobl ifanc a gyfeiriwyd at Wasanaethau Cymdeithasol yn 2011/12 yn 2,064. Rydym wedi llwyddo i ymateb a gwneud penderfyniad o fewn 24 awr ar 97% o'r cyfeiriadau.

## DARPARU GWASANAETHAU

### Plant Mewn Gofal a Maethu

Ar ddiwedd 2010/11 roedd 175 o blant yng ngofal y Cyngor, ond erbyn diwedd Mawrth 2012, roedd 195 o blant mewn gofal. Hwn yw'r ffigwr uchaf erioed ar gyfer y gwasanaeth ac mae'n her cynnal gwasanaeth statudol o ansawdd uchel i'r plant a'r bobl ifanc yma o ran niferoedd gweithwyr cymdeithasol ac adnoddau ychwanegol i gyfarfod ag anghenion.

Yn gadarnhaol, mae'r gwasanaeth maethu sydd yn gyfrifol am recriwtio, asesu a chefnogi rhieni maeth yn wasanaeth ardderchog ac yn llwyddo i gyrraedd y targed o gofrestru 20 o unedau maethu'r flwyddyn. Mae'r perfformiad yma ymhlith y gorau, os nad y gorau, yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn wasanaeth cofrestredig sydd yn derbyn archwiliadau blynyddol, ac mae'r archwiliad diweddaraf yn Rhagfyr 2011 yn nodi fod arweinyddiaeth gref a phrosesau cadarn mewn lle sydd yn gwella profiadau i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio dychymyg i ddatblygu strategaethau recriwtio llwyddiannus, er enghraifft hurio siop yn rhai o drefydd mwyaf y Sir er mwyn denu pobl leol i feddwl am faethu fel opsiwn iddynt hwy.



Noson dathlu cyfraniad gofalwyr maeth Gwynedd, 2012

Mae ein rhieni maeth yn cynnig gwasanaeth amhrisiadwy wrth ystyried profiadau addas i blant ac effeithlonrwydd adnoddau. Rhaid felly ystyried pob opsiwn er mwyn sicrhau cefnogaeth addas iddynt.

Egwyddor sylfaenol wrth wraidd y gwasanaeth maethu yw'r dymuniad i blant cael eu magu gan eu teuluoedd gan fod hyn, yn amlach na dim, yn sicrhau canlyniadau gwell iddynt. Rhoddir felly lawer iawn o egni a brwdfrydedd i sicrhau fod aelodau o deuluoedd estynedig plant sydd yn dod i ofal, yn cael eu hystyried fel

gofalwyr maeth ar eu cyfer. Mae gan hyn ei her ei hun gan fod y gofyn cefnogi yn uwch, ac mae hyn yn rhoi gofyn uwch am lefel cefnogaeth ymarferol ac amser staff. Er hynny y bwriad yw ehangu ar hyn yn y dyfodol.

> **"**Mae wedi bod yn brofiad ardderchog os ydych chi'n gallu gwneud plentyn yn hapus am y cyfnod maen nhw'n byw hefo chi, mi allwch chi deimlo'n falch iawn o'r hyn rydych chi wedi ei gyflawni. Dyna fydd ein nod efo pob plentyn sy'n byw hefo ni…. Mae'r gefnogaeth rydym wedi ei gael wedi bod yn wych. Fy nghyngor i rywun sy'n meddwl maethu yw cysylltu gyda thîm maethu Cyngor Gwynedd." Sylw gan ofalwr maeth o Wynedd.

### Cynllun Gofal maeth peripatetig

Fel un ffordd o ymateb i anghenion rhai gofalwyr am ysbaid, mae'r gwasanaeth wedi datblygu cynllun arloesol yn ystod y flwyddyn, sef y cynllun gofal maeth peripatetig, sydd yn golygu fod gan y gwasanaeth 'rieni maeth symudol' sydd yn medru symud i mewn i gartref y gofalwyr sydd angen ysbaid gan achosi'r newid lleiaf posib i'r plant. Mae'r gwasanaeth yn falch iawn o'r cynllun yma. Mae'n gynllun cyntaf o'i fath yn genedlaethol ac yn cael ei ganmol gan reoleiddwyr.

### Darpariaeth egwyl fer

Parhau yn uchel mae'r gofyn am egwyl fer ar gyfer plant a phobl ifanc anabl ac mae cyfarfod â'r angen yn llawn yn amhosibl o fewn yr adnoddau presennol. Mae ychydig yn fwy o ddarpariaeth ar gael nag sydd wedi bod yn y gorffennol oherwydd cofrestru gofalwyr maeth penodol ar gyfer darparu egwyl fer, ond mae yn bell o fod yn ddigonol.

Mae'r gwasanaeth wedi gweithio yn agos iawn gyda'r Gwasanaeth Ysgolion i gyflwyno cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru ar gyfer arian i adeiladu ysgol arbennig newydd gyda darpariaeth breswyl ar gyfer egwyl fer ynghlwm. Mae'r amserlen o ran gweithredu ar hyn yn aneglur ar hyn o bryd ac felly mae'r gwasanaeth yn datblygu cynllun "dros dro" er mwyn ceisio ymateb i'r angen. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod nifer uwch o blant anabl a sâl yn dod i ofal y Cyngor a'n barn yw y byddai modd lleihau'r nifer yma wrth gynyddu'r capasiti egwyl fer er mwyn cefnogi teuluoedd. Yn aml mae'r ddarpariaeth gefnogol sydd ar gael ar hyn o bryd yn bell o'u cartref a'u cynefin a'r bwriad i'r dyfodol yw darparu gofal egwyl fer o fewn eu cynefin.

Mae'r gwasanaeth yn ymateb i'r cynnydd yn y galw am wasanaeth ac yn ymwybodol iawn o'r pwysau y mae hyn yn ei greu ar unigolion a thimau o fewn y gyfundrefn. Nid yw'r drefn fel mae'n bodoli ar hyn o bryd yn gynaliadwy os yw'r un lefel o ofyn yn cael ei dystiolaethu. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd trafodaethau gyda swyddogion iechyd, heddlu ac addysg er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth ynglŷn â'r gwasanaethau cefnogol dylid eu cyfeirio at y gwasanaeth. Mae'r Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc wrthi'n llunio cynllun comisiynu ar gyfer y dyfodol a'r bwriad yw ei gyhoeddi'n ystod 2012. Rhagwelir y bydd y cynllun yma'n adnabod ac yn cyfarch yr angen i gyflwyno mwy o wasanaethau arbedol sydd wedi eu targedu ar gyfer y teuluoedd sydd o dan lefel meini prawf y gwasanaethau cymdeithasol ac a fydd mewn amser yn cael effaith ar y niferoedd sydd yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth yn ddiangen.

## Adolygu cynlluniau

Rhaid cynnal adolygiadau statudol yn amserol ar gyfer pob plentyn mewn gofal er mwyn sicrhau bod eu cynllun gofal yn addas ac yn ystyried eu diogelwch a'u gofynion megis addysg ac iechyd. Heb yr adolygiadau yma mae risg o oediad mewn cynllunio amserol ar gyfer dyfodol plant. Mae'r nifer uwch o blant mewn gofal yn arwain at gynnydd yn y nifer o adolygiadau. Er y cynnydd yma gwelwyd gwelliant sylweddol iawn yn ein perfformiad eleni.

Roedd 97.9% o'r adolygiadau amddiffyn plant wedi eu cynnal o fewn yr amserlen statudol yn ystod 2011/12.  Mae hyn yn sgil cynyddu'r capasiti ond hefyd tynhau'r disgwyliadau ymarfer a'r gofyn i ohirio cyfarfodydd.

Mae plant a phobl ifanc yn adrodd yn gyson am bwysigrwydd cael sefydlogrwydd a chysondeb o ran swyddogion  adolygu ac nid ydynt am weld pobl wahanol yn cadeirio. Er ein llwyddiant eleni rydym yn llawn sylweddoli bydd adnabod capasiti addas yn parhau i fod yn her  ac yn enwedig felly os bydd y nifer o blant mewn gofal yn cynyddu ymhellach.

## DIOGELU PLANT

Mae diogelu plant yn flaenoriaeth uchel i'r gwasanaeth ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau gwasanaethau diogel o ansawdd uchel yn y maes gwaith yma.

Bu i'r gwasanaeth dderbyn archwiliad o faes asesu a chynllunio gofal yn ystod mis Mawrth ac Ebrill 2011 gan y AGGCC.  Bu i'r adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mai 2011 ddatgan fod gwasanaethau yn ddiogel yng Ngwynedd a bod tystiolaeth o gyfathrebu da o fewn y gwasanaeth. (http://wales.gov.uk/docs/cssiw/report/110607gwyneddcy.pdf) Adnabuwyd rhai meysydd oedd angen sylw penodol megis gwella prydlondeb asesiadau cychwynnol, sicrhau nad oes oedi a llithro wrth ymdrin ag achosion cymhleth a sicrhau bod y trothwyon ar gyfer ymyrryd yn gyson rhwng gwahanol ardaloedd. Derbyniwyd y pwyntiau yma'n llawn gan y gwasanaeth ac fe luniwyd rhaglen weithredu o ganlyniad. Yr ydym yn falch o adrodd bod yr argymhellion wedi eu cyfarch ac adroddwyd ar ganfyddiadau'r archwiliad i Fwrdd Diogelu Gwynedd a Môn yn ogystal â Phwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.



Rhoddwyd sylw yn ystod y flwyddyn i sicrhau ansawdd ymarfer, gan ganolbwyntio ar asesiadau craidd, asesiadau cychwynnol ac adroddiadau i gynadleddau achos amddiffyn plant a chynlluniau amddiffyn.  Er yn gyffredinol yn dda, adnabuwyd yr angen i sicrhau fod cefnogaeth ar gael i dimau ac unigolion i wella ansawdd eu hymarfer.   Mae'r rhaglen

arolygaeth, hyfforddiant a mentora sydd ar gael i'r timau wedi cynorthwyo'r rhaglen wella yma. Rhaid sicrhau diwylliant sy'n hyrwyddo'r gallu i herio ymarfer ar draws gwaith y timau a phartneriaethau. Mae'r rheolwyr o fewn y gwasanaeth, er yn wynebu llwythi gwaith uchel iawn, wedi ymrwymo i sicrhau gwelliant parhaus ac mae hyn yn cael ei gefnogi gan raglen awdit gynlluniedig ar gyfer y gwasanaeth.

Braf yw gallu adrodd bod adroddiad annibynnol gan Brifysgol Bangor, a gomisiynwyd gan Fwrdd Diogelwch Môn & Gwynedd yn adrodd bod ein partneriaid yn ganmoliaethus iawn o'n gwaith ym maes diogelwch plant.

> *"Thoroughness, effective leadership and decision making were said to characterise Gwynedd Social Services... other agencies could learn from them."* Sylw gan swyddogion Heddlu Gogledd Cymru

Mae datblygiadau cyffrous ar y gorwel ar gyfer datblygu gwasanaethau ar gyfer y teuluoedd hynny sydd yn yr haenau uchaf o angen ble mae eu plant unai mewn gofal, mewn perygl o fynd i ofal neu ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Mae gofyn ar awdurdodau lleol i ddatblygu Gwasanaeth/Timau Integredig Cefnogi Teuluoedd (IFSS) fydd yn wasanaeth fydd yn cael ei ddarparu yn aml asiantaethol yn cynnig cefnogaeth ac asesiad dwys o anghenion mewn teuluoedd ble mae problemau camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, problemau iechyd meddwl, neu yn dioddef trais yn y cartref. Bydd teuluoedd yn derbyn ymyrraeth ddwys iawn am gyfnod o bedair wythnos ac yn derbyn cynllun teulu fydd wedyn yn cael ei reoli gan eu gweithiwr cymdeithasol. Mae Gwynedd a Môn wedi cytuno i weithio ar y cyd i ddatblygu'r gwasanaeth yma.

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y gwasanaeth wobr gan Gyngor Gofal Cymru yn y maes cefnogi ymyrraeth effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd am Y Model Risg sydd wedi ei ddatblygu gan y gwasanaeth. (http://www.cgcymru.org.uk/ddigwyddiadau-rhannu-ymarfer-da/?force=2). Yr ydym yn amlwg yn falch iawn o hyn gan ei fod yn codi'r gwasanaeth ar blatfform cenedlaethol ac yn cydnabod fod gwaith ym maes asesu risg i blant yn esiampl o ymarfer da ar gyfer gweddill Cymru. Mae'r model yma bellach wedi ei fabwysiadu gan Fwrdd Diogelwch Môn & Gwynedd. Mae diddordeb eang, o Iwerddon ac awdurdodau yn Lloegr yng ngwaith Gwynedd yn parhau.



Swyddogion Cyngor Gwynedd gyda'r wobr a dderbyniwyd
am y gwaith Fframwaith Model Risg

Fframwaith ydi'r Model Risg i asesu a rheoli risg a niwed arwyddocaol o fewn Gwasanaethau Plant Statudol ac mae'n darparu fframwaith i sgrinio achosion ar gyfer risg fel mater o drefn wrth reoli achosion. Mae yn cyfarfod ag angen gweithiwr cymdeithasol i gynhyrchu asesiadau risg proffesiynol ac mae'n gwella cyfathrebu mewn gwaith aml asiantaeth. Mae'n cefnogi gwneud penderfyniadau a dod i farn broffesiynol yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae cefnogi gallu staff i ddefnyddio doethineb proffesiynol a gwneud penderfyniadau gwell yn rhan ganolog o Adroddiad Munro ar wella systemau amddiffyn plant.

> "Credwn fod ein ffordd newydd ni o weithio yn rhoi i staff y fframwaith iawn, a'r hyder, i wneud penderfyniadau clir a chyson wrth iddyn nhw asesu a yw plentyn mewn perygl o niwed sylweddol. Dw i'n hynod o falch fod saith awdurdod lleol arall o wahanol rannau o'r Deyrnas Unedig bellach yn defnyddio'r un fframwaith a dulliau, rhywbeth sy'n hwb gwirioneddol i ni." Marian Parry Hughes, Pennaeth Gwasanaethau Plant Cyngor Gwynedd

Mae pwysau gwaith o ran cynnal cynadleddau achos amddiffyn plant ar gyfer plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi bod yn drwm yn ystod y flwyddyn. Hyd at eleni mae perfformiad wedi bod yn ardderchog. Ar sail y wybodaeth i law mae'r Adran yn adolygu addasrwydd y lefel capasiti a'r oblygiadau hir dymor. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn ddibynnol ar un swyddog. Gwelwyd ychydig o lithriad eleni yn ein perfformiad ym maes cynnal cynadleddau achos o fewn yr amserlen statudol, sef o fewn 15 diwrnod gwaith o'r cyfarfod strategaeth. Er hynny mae'r ffigwr yn gymharol i gyfartaledd Cymru a gwyddom mai ychydig o ddiwrnodau tu allan i'r amserlen mae'r cynadleddau sydd wedi llithro ac nid oes rheswm i bryderu fod amserlenni yn cael eu hanwybyddu neu yn mynd yn afresymol. Mae adroddiadau cynnydd a pherfformiad yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn chwarterol er mwyn sicrhau trefniadau diogel ac addas. Er hynny, mae angen edrych yn y flwyddyn i ddod ar sut y byddwn yn medru cyfarch y materion yma yn y tymor hir.

Yn y cyfamser mae swyddogion wedi bod yn datblygu nifer o gynlluniau sy'n rhan o'r rhaglen comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyflwynir blas o rai o'r prif gynlluniau:

### Gwasanaethau i Blant Anabl a Sâl

Yn sgil ymroddiad swyddogion dros nifer o flynyddoedd llwyddwyd i dderbyn cymeradwyaeth ffurfiol i'r tîm integredig ar gyfer plant anabl a sâl sy'n gytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a BIPBC. Bwriad y cytundeb yw sicrhau gwell cysondeb a sefydlogrwydd i sut mae'r gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu yn y maes allweddol yma. Mae'r Gwasanaeth yn cael ei reoli drwy Fwrdd Rheoli sydd yn cynnwys y prif bartneriaid fel aelodau ynghyd a chynrychiolaeth o Addysg a'r trydydd sector. Prif fuddiannau'r newid fydd i wella profiad teuluoedd a phlant sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaeth, creu mynediad i wybodaeth yn gynt a chynnal ymateb buan i deuluoedd.

O ran strwythur gwasanaeth, un o'r prif fuddiannau fydd rhannu cyfrifoldebau dros y proffesiynau, gwneud penderfyniadau ar y cyd am gyfeiriadau a delegeiddio cyfrifoldebau ar draws y meysydd gwaith. Y Cyngor yw'r Darparwr Arweiniol gyda'r Rheolwr Gwasanaeth yn gweithredu fel rheolwr llinell ar draws y gwasanaeth nyrsio, seicoleg a gwaith cymdeithasol, ac

yn atebol am y gwasanaeth i Dîm Rheoli Gwasanaethau Cymdeithasol ac i Fwrdd Rheoli'r Gwasanaeth. Mae ymrwymiad llawn i'r newid, ac er yn derbyn y bydd heriau ar hyd y ffordd, mae'r staff eu hunain wedi cael eu cynnwys yn y penderfyniadau drwy nifer o ddigwyddiadau ymgynghori, mae teuluoedd a phlant a phobl ifanc wedi cael cyfle i roi barn ac wedi awgrymu enw newydd i'r gwasanaeth fel arwydd o ddechrau newydd. Cytunwyd gan aelodau'r Bwrdd Rheoli wedi derbyn argymhelliad, mai 'Derwen' fydd yr enw newydd, sydd yn cynrychioli cadernid a datblygiad.

**YMARFER DA - Gwobr i Wasanaethau Arbenigol Plant Gwynedd**

Mae Gwasanaethau Arbenigol Plant Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi eu hanrhydeddu gan Brif Weinidog Cymru am dorri cwys newydd drwy hyrwyddo gwell cydweithio rhwng gwasanaethau ac asiantaethau er budd plant bregus a'u teuluoedd.

Dywedodd rheolwr y gwasanaeth, Iona Griffith: "Ein bwriad yw sicrhau fod partneriaid yn gweithio efo'i gilydd er mwyn gwneud pethau yn haws i blant anabl neu blant sy'n ddifrifol wael a'u teuluoedd. Mae staff yn gallu ymateb yn well a gweld teuluoedd yn gynt o dan y drefn newydd gan mai dim ond at un ganolfan sydd raid i deuluoedd ddod i gael gwybodaeth ac i dderbyn gwasanaethau, yn lle mynd o un lle i llall ac ailadrodd yr un stori am gyflwr y plentyn neu broblem maent yn ei wynebu.

Golygai hyn fod teuluoedd yn gallu troi at un ganolfan ar gyfer cefnogaeth nyrsys datblygiad plant, gweithwyr cymdeithasol, seicolegwyr clinigol a swyddog cyswllt addysg. Mae gwasanaethau cefnogol, gweinyddwyr a'r sector wirfoddol yn gweithio o fewn y partneriaethau hefyd.

Mae Gwasanaethau Arbenigol Plant Gwynedd hefyd yn rhoi pwyslais ar gynnig cyfleoedd newydd i blant a phobl ifanc anabl ac yn hyrwyddo digwyddiadau lle gall teuluoedd sgwrsio â swyddogion mewn amgylchiadau llawer mwy anffurfiol drwy drefnu Dyddiau Dathlu Teulu.



Gwasanaethau Arbenigol Plant Gwynedd yn derbyn eu Gwobr

## Llety i bobl ifanc sy'n gadael gofal y Cyngor

> ASTUDIAETH ACHOS
>
> Yn 18 oed bu i Sian gael ei hun i sefyllfa lle oedd angen cefnogaeth ychwanegol gan y Tîm 16+. Roedd wedi bod mewn lleoliad maeth ers peth amser, ond bu i'r berthynas gyda'r gofalwyr dorri lawr gan arwain i Sian gyflwyno ei hun i'r Tîm 16+ yn berson ifanc digartref.
>
> Cafodd leoliad gwely a brecwast yn y dref agosaf ond nid oedd yn lleoliad delfrydol. Roedd gan Sian ystafell ei hun ond roedd rhaid rhannu cyfleusterau cegin ac ymolchi. Nid oedd yn hapus yno, gan adrodd yn gyson problemau am gyflwr yr adeilad, yr ystafell, y cyfleusterau a thrafferthion roedd y tenantiaid eraill yn achos o ran ymddygiad. Yn ogystal â hyn, roedd Sian yn gorfod delio gydag oblygiadau a chyfrifoldebau newydd ychwanegol fel tenant.
>
> Cwta dwy flynedd wedi symud i'r lleoliad, a chyda cefnogaeth gyson y Tîm 16+ â'r darparwr Bywyd Bywiog, bu i Sian gael cynnig fflat yn y dref. Symudodd i'r fflat, ac yno mae'n byw hyd heddiw. Mae'n cydnabod bod y newid hwn wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'w bywyd, ac wedi mynegi ei gwerthfawrogiad i'r darparwr a'r gwasanaeth am y gefnogaeth werthfawr mewn cyfnod o newid aruthrol yn ei bywyd.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn gyfrifol am blant sydd wedi bod mewn gofal ar ôl iddynt gyrraedd deunaw oed. Datganwyd pryder dros y blynyddoedd a fu nad oedd y ddarpariaeth yn ddigon da ac nad oedd digon o ddewis i'r bobl ifanc yma oedd yn fforddiadwy ac o'r safon briodol i'r bobl ifanc.

Derbyniwyd adroddiad yn 2011 oedd yn ymchwilio i'r holl ddarpariaethau oedd ar gael a chynnig opsiynau gwell oedd yn cynnig gwell gwerth am arian ac ansawdd well o gefnogaeth i bobl ifanc. Adroddwyd y canfyddiadau drwy Dim rheoli'r Adran ac i'r Panel Rhiant Corfforaethol O ganlyniad i'r gwaith yma, cytunwyd fod angen mynd allan i dendr i wahodd darparwyr i ymgeisio am gytundeb i ddarparu gwasanaeth llety a chefnogaeth i'r garfan yma o'r boblogaeth. Rydym yn hyderus gallwn symud ymlaen yn 2012-13 i roi cytundeb newydd i ddarparwr llwyddiannus a thrwy hynny cynyddu ein dewisiadau ar gyfer pobl ifanc a sicrhau ansawdd a safon cefnogaeth dda.

> "Dwi'n gweithio llawer efo pobl ifanc nad ydyn nhw mewn cysylltiad a'u teuluoedd…Mae llawer o bobl ifanc yn y sefyllfaoedd hyn heb neb arall i'w helpu nac i ddysgu sgiliau bywyd iddyn nhw…. Mae'n medru bod yn waith caled, ond mae'n rhoi boddhad anhygoel i rywun. Pan dw i'n cyfarfod rhai o'r bobl ifanc am y tro cyntaf maen nhw ar ymyl y dibyn, a does dim byd gwell na'u gweld nhw'n medru sefyll ar eu traed eu hunain yn y diwedd." Sylw gan weithwr o'r Tim 16+ Cyngor Gwynedd.

## Datblygiadau newydd wrth ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc a'u teuluoedd

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweithio yn agos gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac wedi llwyddo i gael arian i gyflogi gweithiwr penodol ar gyfer gwasanaethau plant i weithio gyda phlant a phobl ifanc yn eu harddegau a'u teuluoedd, pan fo camddefnydd cyffuriau yn broblem.

Mae'r swydd yma wedi ei lleoli gyda'r Tîm Ôl 16 ac mae'n rhan werthfawr o'r gwasanaeth yr ydym ei gynnig i deuluoedd.

Yr ydym yn ogystal wedi gweithio yn agos gyda Gyrfa Cymru i edrych ar y nifer o bobl ifanc sydd yn agored i'r gwasanaeth ôl 16 sydd yn bobl ifanc 'NEET' (ddim mewn gwaith, addysg na hyfforddiant). O ganlyniad i waith ymchwil a wnaed o'r niferoedd sydd wedi cofrestru gyda Gyrfa Cymru yng Ngwynedd, gwelwyd fod 50% ohonynt yn agored i'r gwasanaeth. Felly fe aethom ymlaen i adnabod arian a sefydlu swydd o fewn y Tîm ôl 16 i weithio yn benodol gyda'r bobl ifanc yma i sicrhau eu bod yn derbyn mynediad i addysg, hyfforddiant neu waith er mwyn gwella eu canlyniadau yn y tymor hir a sicrhau nad ydynt yn anweithredol yn economaidd.

**Gwella cyswllt ac effeithlonrwydd ariannol**

Yn ystod y flwyddyn, wrth adnabod cynlluniau arbedion ac effeithlonrwydd o fewn y gwasanaeth, rydym wedi bod yn edrych ar ffyrdd o arbed arian a rhesymoli gwariant o fewn maes gwaith cefnogol. Er enghraifft, canolbwyntiodd hyn yn benodol ar resymoli'r defnydd o leoliadau sydd ar gael i drefnu cyswllt rhwng plant mewn gofal a'u rheini. Roedd y gwasanaeth, oherwydd diffyg dewisiadau, yn defnyddio nifer o leoliadau anaddas i'r pwrpas oedd yn ei gwneud yn anodd asesu gallu rhieni i ofalu am eu plant. Rydym wedi gweithio yn agos a'r gwasanaeth addysg er mwyn sicrhau fod gennym ddarpariaeth yn Ysgol Gymuned newydd Yr Hendre yng Nghaernarfon agorwyd ym Mis Mawrth 2012. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys cegin ac ystafell gyfarfod a mynedfa annibynnol i'r ysgol, yn adnodd pwysig i ni fel gwasanaeth ac yn gwella profiadau teuluoedd wrth weld eu plant dan oruchwyliaeth, neu ar gyfer gwneud gwaith uniongyrchol gyda phlant.

Rydym yn ogystal wedi symud i rentu tŷ yn Nolgellau i'r un pwrpas am gost is na'r hyn yr oeddem yn ei wario ar leoliadau gwahanol yn yr ardal yn ad hoc ac yn ddibynnol ar beth oedd ar gael. Mae hyn wedi profi yn llwyddiant ysgubol ac mae'r adnodd ar gael trwy gydol yr wythnos ac yn ystod penwythnosau. Bwriad y gwasanaeth yw ymestyn cynllun fel yma i ardal Dwyfor. Yn ardal Arfon, mae yna ystafell deulu pwrpasol yn cael ei pharatoi o fewn swyddfa'r Cyngor ym Mhenrallt sydd yn llawer gwell i'r pwrpas na'r hyn sydd yn bodoli yn barod. Bydd yno gyfleusterau cegin a newid plant ar gael.

**Gofalwyr Ifanc**

Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol iawn o'r angen i gefnogi gofalwyr ifanc, boed y gofalwyr yn blant a phobl ifanc sydd yn ymgymryd â thasgau gofalu am rieni neu aelodau o'u teulu, neu yn frawd neu chwaer i blentyn neu berson ifanc anabl. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau fod anghenion gofalwyr ifanc yn derbyn sylw gan wasanaethau oedolion ac ysgolion, a bod ganddynt fynediad at amrediad o wasanaethau sydd yn ymatebol ac yn cyfarfod a'u hanghenion gan gynnwys mewn argyfwng.




Dros y flwyddyn ddiwethaf mae nifer o ofalwyr ifanc wedi cael eu hadnabod, a phob un sydd wedi eu cyfeirio at y gwasanaeth wedi derbyn asesiad o'u hanghenion. Rydym hefyd yn derbyn nad yw pob teulu eisiau, nac angen, ymyrraeth gwaith cymdeithasol. O ganlyniad rydym yn comisiynu Gweithredu Dros Blant i ddarparu gwasanaeth i ofalwyr ifanc ar draws y Sir sydd ar gael i unrhyw ofalwr ifanc yn ogystal â darparu cefnogaeth uniongyrchol i unigolion, maent yn cynnal fforymau gofalwyr ifanc yn y tair ardal.

Yn ystod y flwyddyn bu i grŵp o ofalwyr ifanc ddatblygu siarter hawliau gofalwyr ifanc a lansiwyd hwn yn swyddogol yn nerbynfa Pencadlys y Cyngor Sir fis Mehefin 2011.

**RHAGLENNI RHANBARTHOL**

Mae'r Gwasanaeth yng Ngwynedd wedi cyfrannu i'r rhaglen waith rhanbarthol sydd wedi sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (NWAS). Nod y gwasanaeth yma, a lansiwyd yn ffurfiol yn 2011/12 yw gwella cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth gan osgoi costau uwch i'r siroedd unigol. Gwnaed llawer o waith i sefydlu'r gwasanaeth ac erbyn hyn mae tystiolaeth bod y gwaith sefydlu wedi ei gwblhau a bod y buddsoddiad amser yn fuddiol. Yn flaenorol un swyddog yn unig oedd yn arbenigo ym maes mabwysiadu yng Ngwynedd ac arweiniodd hyn at oedi a rhestrau aros. Bellach mae'n haws osgoi sefyllfa fel hyn gan fod yna dîm a chefnogaeth ar draws y Gogledd.

Penderfynwyd cydweithio'n rhanbarthol ym maes pwrcasu lleoliadau arbenigol ar gyfer plant mewn gofal. Y nod yw cael gwell gwerth am arian a sicrhau safonau mwy cyson trwy rannu gwybodaeth ynglŷn â'n darparwyr. Bydd y wybodaeth, wrth weithredu'r cynllun rhanbarthol yma, hefyd yn gwella ansawdd data rhanbarthol ac yn hwyluso trefniadau comisiynu addas yn y dyfodol.

## 5. Adolygiad o Wasanaeth Oedolion

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu a chomisiynu nifer o wasanaethau ar gyfer oedolion a'u gofalwyr gydag amrediad o anghenion, gan gynnwys yr elfennau canlynol:

- Pobl Hŷn (diffinnir pobl hyn fel rhai dros 65)
- Anabledd Corfforol a synhwyred
- Cefnogaeth iechyd meddwl
- Anabledd Dysgu
- Diogelwch Oedolion ("POVA")
- Gofalwyr

Mae Gwasanaethau Oedolion yn ymrwymedig i hyrwyddo annibyniaeth drwy beidio meithrin dibyniaeth, yn ogystal â chynnig a hyrwyddo mynediad i wasanaethau sy'n cefnogi unigolion i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau.



Bu i'r Adran ystyried perfformiad ac effeithlonrwydd ein gwasanaethau ar draws y rhaglen waith gan ystyried mynediad at wasanaethau, ystod a safon gwasanaethau a sut i hyrwyddo annibyniaeth.

Gwelwyd cynnydd o fewn 6 o'r dangosyddion cenedlaethol eleni.

Llwyddwyd i wella'n sylweddol yn ein perfformiad wrth osgoi oedi wrth ryddhau o'r ysbyty o fod yn perfformio'n isel i gymharu â Chymru llynedd i fod ymysg yr orau yng Nghymru eleni gyda 1.4 achos y mis i gymharu â bron i 8 llynedd.

Parheir i leihau'r niferoedd o gleientiaid rydym yn lleoli o fewn cartrefi preswyl am y chweched flwyddyn yn olynol, ac er rydym yn parhau i gynnal niferoedd cymharol uchel mewn cartrefi preswyl, rhagwelwn y bydd Cyngor Gwynedd yn cwrdd â chyfartaledd Cymru o fewn dwy flynedd.

O'r 4 sydd wedi syrthio, mae'r rhain i gyd yn mesur agweddau gwahanol o wasanaethau yn y gymuned a'r cyfeiriad yng nghyd fynd â'r weledigaeth i gadw pobl yn annibynnol. Yn yr un cyfnod gwelwyd cynnydd sylweddol o 43% yn y niferoedd oedd yn derbyn Teleofal a 'r nifer wnaeth dderbyn gwasanaeth Galluogi wedi dyblu.

> "Hoffwn ddatgan diolch i'th gyd-weithwyr am y gwasanaeth a dderbyniodd Mam gennych am dros dair blynedd, gwasanaethau a oedd yn gyfrifol am ei chynnal yn ei chartref hyd at yr wythnos yma pan fu rhaid i ni fel meibion dderbyn ei bod angen gofal preswyl, a hithau o fewn tair wythnos i fod yn 102." Perthynas defnyddiwr gwasanaeth, gwasanaeth oedolion.

O ran ystadegau parthed y nifer o oedolion sydd wedi derbyn gwasanaethau (cymunedol a phreswyl) gan yr Adran, ers 2005/06, mae'r nifer wedi cynyddu o 4,190 (2005/06) i 4,830 (2011/12) sy'n dwf o 15%. Noder fod hwn yn cynnwys gwasanaethau ychwanegol sydd ddim yn cael eu cyfrif trwy'r dangosyddion cenedlaethol.

## MYNEDIAD I WASANAETHAU, ASESU A RHEOLI GOFAL OEDOLION

Yn ystod 2011/12 bu i'r Gwasanaeth ymdrin â dros 9,000 ymholiad. Arweiniodd y rhain at dros 4,500 o gyfeiriadau. Wrth ystyried y gofyn a'r disgwyliad rydym o'r farn bod trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer sicrhau mynediad at wasanaethau cymdeithasol. Er hyn bu i ni weithredu ar gynlluniau gwella pellach yn ystod y flwyddyn mewn ymgynghoriad a'n defnyddwyr a phartneriaid.

Mae modd cysylltu â'r Gwasanaeth pedwar awr ar hugain trwy'r flwyddyn. Gwasanaethau brys yn unig a ddarparir tu allan i oriau gwaith ar hyn o bryd. Mae pob ymholiad newydd o safbwynt gwasanaeth Oedolion, heblaw am wasanaeth Iechyd Meddwl, yn mynd at y Tîm Cynghori ac Asesu. Mae gan y gwasanaeth Iechyd Meddwl drefniadau ar wahân ar y cyd â BIPBC.

### Tîm Cynghori ac Asesu

Mae'r Tîm Cynghori ac Asesu yn cyfeirio ymlaen at y timau priodol neu'n annog ymateb addas drwy roi cyngor neu gyfeirio ymlaen at asiantaethau neu ffynonellau eraill fel bo'r angen.

Ym mis Medi 2011, bu i'r tîm Cynghori ac Asesu symud o swyddfa Penrallt, Caernarfon at wasanaeth "Galw Gwynedd" ym Mhenrhyndeudraeth. Gwnaed hyn er mwyn gwella safon y gefnogaeth dechnegol oedd ar gael i'r gwasanaeth a sicrhau darpariaeth gydlynus gyda'r Tîm "Galw Gwynedd". Yn flaenorol nid oedd y system ffon yn gallu ymdopi gyda nifer y galwadau ac roedd hyn yn arwain at oedi a rhwystredigaeth i'r rhai oedd yn ceisio cysylltu â'r Adran. Y bwriad yw datblygu cyfleoedd cydweithio ymhellach gyda BIPBC er mwyn hwyluso un pwynt cyswllt i'r dyfodol.

Gwelwyd datblygiadau penodol yn ystod y flwyddyn gan gynnwys:

- Cynyddu capasiti er mwyn gwella'r ymateb i'r nifer o ymholiadau ychwanegol ynglŷn â gofalwyr yr ydym yn disgwyl yn sgil y Mesur Gofalwyr newydd.
- Adolygu trefniadau man addasiadau er mwyn gwella profiad defnyddwyr wrth sicrhau addasiadau i'w cartrefi.

**Rhestrau Aros**

Gwelwyd gwelliant yng ngallu'r Adran i ymateb i'r angen gyda gostyngiad yn y rhestrau aros. Er hyn, bodola rhestr aros am wasanaethau iechyd meddwl (a ddarperir ar y cyd gyda BIPBC) yn ardal Arfon ac am wasanaeth therapi galwedigaethol.

Mae'r Rheolwr Gwasanaeth wedi cynnal adolygiad i'r gwasanaeth Therapi ac wedi adnabod opsiynau ar gyfer sicrhau ein bod yn defnyddio'n adnoddau'n fwy effeithiol.

Mae'r sefyllfa o safbwynt gwasanaeth Iechyd Meddwl yn fwy cymhleth gyda rhestr aros o fewn y maes yma. Mae ein gallu i ymateb i'r her yn ddibynnol ar gyd weithio gyda BIPBC a rhaid hefyd ystyried oblygiadau'r Ddeddf Iechyd Meddwl sy'n cael ei gyflwyno ym Mehefin 2012. Yn sicr mae'r ail strwythuro yn Iechyd wedi cymhlethu ein gallu i weithredu gan fod dymuniad gan BIPBC sicrhau cysondeb ymarfer ar draws chwe sir y gogledd. Erbyn hyn, ac wrth gynllunio ar gyfer cyflwyno'r Ddeddf Iechyd Meddwl eleni mae cynllun rhanbarthol fydd, y gobeithir, yn fodd i sicrhau gweithredu a chryfhau cysondeb ymarfer.

Bydd rhaid adolygu trefniadau darpariaeth dros gyfnod y Nadolig ymhellach. Mae swyddfeydd y Cyngor yn cau rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Mae rhai staff yn gwirfoddoli i weithio gyda'r Tîm Nos er mwyn cynnig darpariaeth brys yn ystod y cyfnod yma ond ein barn yw nad yw hyn yn ddigonol. Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd a'r Unedau yn ystod 2011/12 ac mae'r trafodaethau'n parhau er mwyn gwella'r ddarpariaeth dros y cyfnod yma.

**Tîm Ysbyty Gwynedd**

Cyngor Gwynedd sy'n arwain ar ddarpariaeth tîm yr ysbyty llem ar gyfer Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy. Mae hyn yn golygu fod pob ymholiad ynglŷn â chlaf, o unrhyw sir, yn cael ymateb cyson gan ganiatáu i ni wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau gofal cymdeithasol ar y safle ar gyfer y tair Sir. Gan fod mwy o staff ar gael ar y rota ysbyty, mae modd i ni adael i staff o'r ysbytai weithio yn y gymuned. Golyga hyn bod y claf yn gallu cadw mewn cysylltiad â'r un gweithiwr yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty.

Yn ystod y flwyddyn cwblhawyd sawl adolygiad gyda swyddogion iechyd er mwyn gwella profiad cleifion yn yr ysbyty a gwneud gwell defnydd o adnoddau. Cyflwynwyd trefniadau newydd gan gynnwys trefniadau cynghori staff iechyd ynglŷn â'r ffordd orau i weithredu â'r adnoddau sydd ar gael. Ar hyn o bryd mae trafodaethau'n parhau gydag iechyd er mwyn gallu cyd-leoli timau er mwyn hyrwyddo cydweithio ymhellach ond hyd yma nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu adnabod lleoliad addas yn yr ysbyty. Mi fydd rhoi sylw i'r trefniadau mynediad a gadael yr ysbyty'n parhau'n faes pwysig ar gyfer ein rhaglen waith yn ystod y flwyddyn i ddod.

**Gweithio o fewn ardaloedd ( Locality Working )**

Rydym wedi parhau i gryfhau ein cyd weithio gydag Iechyd o fewn ardaloedd Dwyfor, Arfon a Meirionydd. Mae Grŵp Arweinyddol Ardal (Locality Leadership Group ) yn bodoli o fewn y tair ardal yng Ngwynedd ac yn cyfarfod yn rheolaidd. Bu i'r grwpiau yma ddatblygu cynlluniau gweithredol a blaenoriaethau lleol. Tystiwyd cynnydd yn y trefniadau cydweithio

ac mae cadarnhau penodiadau allweddol o fewn BIPBC wedi bod yn gam ymlaen eleni. Ar gyfer y flwyddyn i ddod mi fydd yn bwysig sicrhau clirdeb disgwyliad a safonau ymarfer cyson ar gyfer y tair ardal ynghyd a sut y bydd Cyngor Gwynedd a BIPBC yn rheoli ar y cyd.

Daeth cynllun peilot Gweithio'n Hyblyg ardal Meirionnydd i ben yn Hydref 2011. O dan y cynllun roedd gweithwyr gofal cymdeithasol yn gweithio o safle yn yr ardal neu o'u cartrefi. Roedd y safleoedd yn yr ardal yn rai a gytunwyd arnynt ar y cyd ag Iechyd ac wedi eu lleoli mewn meddygfeydd neu ysbytai cymunedol. Rydym o'r farn bod y datblygiad yma wedi bod yn llwyddiannus gan iddo hwyluso cydweithio a chyfarfodydd aml disgyblaethol mewn meddygfeydd. Mae'r cyfarfodydd yma wedi targedu ymyrraeth fuan mewn achosion. Tystiwyd gostyngiad clir yn y nifer o fynediadau i'r ysbyty o'r meddygfeydd fu'n rhan o'r cynllun peilot yma. Ein bwriad yw ymestyn y cynllun yma ar draws Gwynedd ond mi fydd angen i ni ystyried sawl cam cyn gweithredu'n llwyr, gan fod rhaid sicrhau bod materion megis systemau technoleg addas ar gael a hefyd ymestyn trefniadau gweithio'n hyblyg.

## DARPARU GWASANAETHAU

Yn sgil y cynnydd yn nifer y bobl hŷn yn ein cymunedau, mae'n bwysig ein bod yn cefnogi unigolion i barhau i fod mor annibynnol â phosib am gyn hired â phosib. Mae ein defnyddwyr yn adrodd (gweler - **O Lygad y Ffynnon-Ymestyn Allan at y Gymuned**) eu bod yn dymuno aros yn eu cartrefi a'u bod yn barod i dderbyn gwasanaethau i sicrhau fod hyn yn digwydd cyn belled a bod y gwasanaethau yma'n addas, amserol ac yn cael eu cynnig mewn ffordd sydd yn rhoi rheolaeth i'r unigolyn.



**"Bydd y nifer o bobl dros 85 oed yng Ngwynedd wedi cynyddu o 3,240 i 6,050 erbyn 2030. Mae hyn yn gynnydd o 87%." Cynllun Comisiynu Pobl Hyn Cyngor Gwynedd 2011**

### Galluogi a Theleofal


Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnal cyfres o ddyddiau agored ar draws y Sir er mwyn dangos pa offer sydd ar gael ar gyfer pobl hŷn i'w galluogi i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae digwyddiadau o'r fath yn gyfle i bobl hŷn, teuluoedd neu ofalwyr i alw heibio am sgwrs anffurfiol a chael gwybod beth sydd ar gael a sut gall gwasanaethau'r Cyngor fod o gymorth i wneud pobl yn fwy cyfforddus a mwy diogel gartref.

**Galluogi**

Mae Galluogi wedi ei sefydlu ar draws Gwynedd ers 2010, i oedolion dros 65 neu oedolion gydag anableddau corfforol neu synhwyrol. Mae'n cael ei ddarparu gan ein darparwyr mewnol o dan Adran Darparu a Hamdden.

Rydym yn gweithredu trefn "intake" gyda phob cyfeiriad newydd (ac eithrio unigolion gyda dementia dwys neu ar ddiwedd eu bywyd ) yn derbyn gwasanaeth Galluogi am y cyfnod cychwynnol.

> "Yr oedd yn amhrisiadwy ac yn fodd imi allu edrych ar fy ôl fy hun ymhen deg wythnos (yn cynnwys gwneud tân bob bore). Roedd y merched mor siriol a charedig ac mor barod i wneud unrhyw gymwynas" – Defnyddiwr gwasanaeth Galluogi, Caernarfon




Mae ymdrechion 2011-12 wedi cynnwys:

- Sicrhau fod pob unigolyn newydd i'r gwasanaeth yn derbyn cyfnod o alluogi ( oni bai fod rheswm penodol pam nad yw hyn yn addas ee gofal diwedd bywyd, dementia dwys )
- Hyrwyddo darparwyr allanol i fod yn rhan o drefn Galluogi fel nad oes raid newid darparwr i dderbyn y gwasanaeth.
- Cyflwyno'r drefn o fewn gwasanaeth Anableddau Dysgu gan gynnwys Gwasanaeth Arbenigol Plant (GAP)

### Teleofal



Mae'n bwysig ein bod yn gweld Teleofal fel elfen o Alluogi ynghyd ac adnoddau, offer ac addasiadau eraill sydd ar gael yn y cartref. Yn aml, dyma'r ffordd orau o gefnogi annibyniaeth heb ymyrraeth arall greu dibyniaeth. Gall darn o offer addas ddileu'r angen am unrhyw ymyrraeth bellach.

Mae'r gwasanaeth wedi ei brif ffrydio, ac mae defnydd cynyddol yn cael ei wneud o'r gwasanaeth. Mae cynnydd wedi ei wneud ar draws Gogledd Cymru wrth uno'r canolfannau ymateb, ac mae Galw Gofal wedi cymryd lle Gofal Môn. Mae hyn wedi bod yn fodd i sicrhau trefniadau mwy cynaliadwy yn yr hir dymor. Mae darpariaeth ddwyieithog wedi cael ei gadarnhau yng Nghytundeb darparu gwasanaeth.

Mae ymdrechion 2011-12 wedi cynnwys:

- Penodi swyddog i gymryd rôl arweiniol er mwyn cynyddu ein defnydd o dechnoleg ar draws gwasanaethau oedolion a GAP.
- Sefydlu trefn i gyd weithio'n agosach gydag Iechyd o safbwynt Teleiechyd yn y sir.
- Adolygu trefniadau gosod Teleofal gyda Gofal a Thrwsio er mwyn sicrhau hwylustod ac effeithlonrwydd
- Parhau i gyd weithio gydag awdurdodau lleol eraill yn y Gogledd i reoli gwasanaeth Galw Gofal a hybu datblygiadau eraill o fewn y maes yn y rhanbarth.

Ein huchelgais yw cynyddu'r nifer sy'n derbyn gwasanaethau teleofal yn sylweddol dros y tair blynedd nesaf gydag 1400 o gleientiaid newydd yn derbyn pecyn sylfaenol ac 470 o gleientiaid newydd yn derbyn pecyn cynhwysfawr.

### Gofal Dydd

Yn ystod 2011/12 lansiwyd adolygiad gwasanaethau gofal dydd i Bobl Hŷn ac eisoes wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda'n rhanddeiliaid. Mae'r adolygiad yn cael ei chynnal o fewn fframwaith o egwyddorion sydd wedi ei gytuno gan y Cyngor ym Medi 2011.

| EGWYDDORION ADOLYGU GWASANAETHAU GOFAL DYDD |
|---|
| 1 Mae angen datblygu mwy o gyfleoedd gymdeithasu o fewn cymunedau. |
| 2 Mae angen datblygu mwy o gyfleoedd ysbaid er mwyn cefnogi gofalwyr. |
| 3 Mae angen datblygu mwy o wasanaethau ar gyfer pobl gyda dementia. |
| 4 Dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau fod adnoddau gan bobl yn eu cartrefi ar gyfer cael bath neu gawod. |
| 5 Mae'n dderbyniol disgwyl i unigolion gyfrannu'n ariannol ar gyfer gweithgareddau a gwasanaethau gofal dydd. |

Mae nifer o ddatblygiadau ar y gweill fydd yn cyfrannu at yr egwyddorion yma :

1. Awel y Coleg, Bala - mae Age Cymru mewn trafodaethau â Chymdeithas Tai Clwyd a'r Cyngor er mwyn sefydlu Clwb Cinio yn y ddarpariaeth Gofal Ychwanegol newydd. Bydd y trafodaethau hefyd yn amgylchu'r posibilrwydd o gynnal gweithgareddau cymdeithasol ar y safle ac yng Nghanolfan Hamdden yn y Bala. Rhagwelir cychwyn unrhyw ddarpariaeth newydd yn ystod Hydref 2012 er mwyn cyd fynd gydag agoriad Awel y Coleg.

2. Canolfan Dydd Plas Hedd, Maesgeirchen, Bangor - y bwriad yw darparu gofal dydd ar gyfer pobl gyda dementia. Bu oedi wrth gyflwyno'r rhaglen yn sgil yr angen i BIPBC benodi eu staff. Mae trafodaethau'n parhau gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau cynnydd yn ystod 2012/13



Grŵp Cyswllt Porthmadog.

**Adolygiad Gofal Dydd Gwasanaethau Anableddau Dysgu**


Yn ystod 2011-12 ail ddyluniwyd gwasanaeth gofal dydd yn ardal Arfon gan hyrwyddo modelau gwasanaeth sydd wedi eu lleoli yn y gymuned ac y sydd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau a dewis i'r defnyddwyr. Mae darpariaeth gref yn cael ei gynnig gan y trydydd sector yn yr ardal yma.

Mae gwaith Grwpiau Cymdeithasol ym maes Anabledd Dysgu wedi cychwyn dros y flwyddyn ddiwethaf yn ardal Arfon. Mae yna hyd at 10 defnyddiwr gwasanaeth y tro yn cyfarfod yn wythnosol ar safleoedd ym Mangor a Chaernarfon. Bydd y grwpiau yn canolbwyntio ar sgiliau coginio, cymdeithasu, hyfforddiant parthed materion megis rhywioldeb, a sgiliau hybu annibyniaeth gyffredinol. Bwriedir ehangu'r cynlluniau ar draws y sir o fewn y flwyddyn nesaf.

Mae angen adolygu'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y ddwy ardal arall (Dwyfor a Meirionnydd) er mwyn gallu cynnig yr un lefel o amrywiaeth a dewis. Bydd hyn yn fwy o her oherwydd natur wledig yr ardaloedd. Mae angen hefyd sicrhau fod y ddarpariaeth yn cael ei thargedu at leihau dibyniaeth ar wasanaethau a chreu cyfleoedd i gryfhau cymunedau.

## LLETY - LLE ADDAS I FYW

### Gofal Preswyl




Mae gorddibyniaeth yng Ngwynedd ar welyau preswyl traddodiadol ac mae strategaethau cyfredol yn llwyddiannus yn lleihau'r galw am y math yma o ddarpariaeth. Mae'r defnydd o welyau o fewn cartrefi preswyl wedi gostwng ond mae yn parhau llawer rhy uchel.

Yn ystod y flwyddyn mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i leihau'r nifer o unigolion dros 65 sydd wedi cael mynediad i gartrefi preswyl wrth weld lleihad yn y gyfradd dros 65 sydd yn cael cymorth i fyw yn y gymuned.

Mae'r gwasanaeth yn gweld yr ystadegau fel arwydd o lwyddiant ein strategaeth o nid yn unig lleihau dibyniaeth ar ofal preswyl ond hefyd gwneud gwell defnydd o wasanaethau arbedol. Er ein llwyddiant i gyrraedd y targed a osodwyd eleni, mae rhaid i'r Cyngor newydd flaenoriaethu'r maes gwaith yma ac mae Gwynedd yn parhau i gymharu'n wael wrth ystyried perfformiad siroedd eraill yng Nghymru a Phrydain. Er mwyn cwrdd â'r hyn mae trigolion Gwynedd ddweud wrthym raid i ni gynyddu'r ddarpariaeth yn y gymuned a lleihau'r ddibyniaeth ar ofal preswyl traddodiadol. Y nod yw cyrraedd cyfartaledd Cymru o safbwynt y dangosydd perfformiad erbyn 2015.

Ar gyfer y dangosydd perfformiad parthed darparu cymorth yn y gymuned i bobl hyn (sy'n 65 oed neu drosodd), bydd angen gweithio i gryfhau a sefydlogi'r gwasanaethau hynny yn y gymuned fydd yn ein caniatáu i gadw unigolion yn eu cartrefi yn ddiogel. Mae'r cynlluniau yma'n cynnwys ail ddylunio ac ymestyn cyfeloedd cymunedol .

Gall wasanaethau preswyl gyfrannu at y weledigaeth drwy gynnig gwasanaethau arbenigol :

- Gwelyau preswyl Adfer fel adnodd cam i fyny / cam i lawr o'r ysbyty (*step up/step down*). Bydd uned o 6 gwely yn agor yng nghartref Plas Gwilym, Penygroes, Arfon fis Ebrill 2012. Mae'r fenter yma ar y cyd ac Adran Darparu a Hamdden.
- Gofal ysbaid er mwyn cefnogi gofalwyr pobl hŷn. Byddwn yn cyflwyno dogfen ar gyfer comisiynu darpariaeth ysbaid penodol i'r sir yn chwarter cyntaf 2012/13.
- Gofal arbenigol ar gyfer dementia. Mae sefydlu lefel ffi gynaliadwy ar gyfer 2012/13 a'r dyfodol er mwyn cefnogi datblygiad y farchnad allanol wedi bod yn bwysig. Byddwn yn parhau i gynnal trafodaethau gyda darparwyr allanol ynglŷn â datblygiadau newydd o fewn y sir.

**YMARFER DA – Uned Adfer Plas Gwilym**

Rydym yn ymwybodol bod trefniadau cyfredol yn rhoi pwysau ar unigolion i wneud penderfyniadau pell gyrhaeddol ynglŷn â'u gofal yn aml heb gael cyfle llawn i wella. Er mwyn sicrhau fod unigolion yn cael pob cyfle i gryfhau a chyrraedd y lefel uchaf o annibyniaeth, bydd uned arbennig yn agor yng nghartref Plas Gwilym, Penygroes fis Ebrill 2012.

Pwrpas yr uned fydd cynnig gwasanaeth Galluogi mewn sefyllfa fwy gwarchodol a rhagwelir y bydd y rhai sydd angen gofal preswyl ar bwynt rhyddhau o'r ysbyty yn gallu treulio cyfnod hyd at 6 wythnos yno yn magu hyder a gwella sgiliau byw'n annibynnol fel y bont yn gallu mynd adref yn hytrach nag i ofal preswyl.

Mae'r datblygiad newydd ym Mhlas Gwilym yn un o nifer o wasanaethau mae'r Cyngor yn eu cefnogi er mwyn helpu pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth, a pharhau i fod yn weithgar yn eu cymunedau eu hunain. Os yw Uned Adfer Plas Gwilym yn profi i fod yn llwyddiannus, bydd y Cyngor yn gobeithio sefydlu cyfleuster tebyg ym Meirionnydd.

## Adolygiad o gartrefi preswyl Gwasanaethau Anableddau Dysgu

Yn hanesyddol, mae Gwynedd wedi llwyddo i gynnal unigolion gydag anableddau dysgu yn eu cymunedau ond mae'r cynllun comisiynu'n adnabod yr angen i barhau gydag adnodd preswyl er mwyn diogelu lles yr unigolion gydag anghenion mwyaf dwys o fewn y sir.

Rydym wedi ymgynghori ar ddyfodol cartrefi ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu. O ganlyniad bu i'r Cyngor gytuno i ddod a defnydd cyfredol Pant yr Eithin, Harlech i ben ar 31 Fawrth 2012. Bydd y safle yn cael ei ddatblygu ar y cyd a Chymdeithas Tai Eryri er mwyn cynnig datblygiad o anheddau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu er mwyn eu cefnogi i fyw'n annibynnol gyda nifer o dai fforddiadwy ar gyfer trigolion Harlech.

Yn sgil yr ymgynghori hyn, daethpwyd i'r casgliad bod angen datblygu safleoedd Tan y Marian, Pwllheli a Frondeg, Caernarfon hefyd er mwyn uwch raddio'r adnoddau yno. Yn y ddau safle yma, byddwn yn edrych am ddarpariaeth breswyl ar gyfer unigolion gydag anghenion dwys ynghyd ac anheddau lle gall unigolion bregus fyw yn annibynnol. Rhagwelir y byddwn yn symud ymlaen i edrych ar opsiynau ar gyfer y ddau safle yma yn ystod 2012/13.



### Tai Gofal Ychwanegol

Mae gwaith adeiladu ar y cynllun cyntaf yng Ngwynedd sef Awel y Coleg yn y Bala wedi cychwyn a disgwylir i'r cynllun agor yn ystod Hydref 2012. Derbyniwyd cefnogaeth y Cyngor i gefnogi datblygiad pellach yn ardal Bangor. Ni dderbyniwyd hawl cynllunio i ddatblygu safle yn Llan Ffestiniog. Bu i'r Cyngor ofyn am adolygiad pellach cyn penderfynu ar gynllun ar gyfer ardal Porthmadog. Bydd y cynllun yma'n parhau i dderbyn sylw o fewn trefniadau'r cynllun Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn.




**Enghraifft o'r ddarpariaeth a gynigir o fewn uned yn Awel y Coleg, Y Bala**

### Gwasanaethau Dementia

Yn unol â chyfeiriad strategol y Cyngor a'r cyfeiriad cenedlaethol mae rhaglen waith yr Adran, o fewn y cynllun Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion, yn rhoi sylw ar yr angen i leihau'r nifer o wlâu preswyl traddodiadol ac i sicrhau darpariaeth uwch o'r gofal arbenigol ym maes dementia. Mae sefydlu unedau arbenigol ar gyfer dementia o fewn cartrefi'r Cyngor a'r twf o welyau arbenigol o fewn y sector annibynnol yn y flwyddyn ddiwethaf, wedi cyfrannu at y gwelliant yn ein perfformiad wrth osgoi oedi wrth ryddhau o'r ysbyty.

> *"The staff are clearly doing good work .... and we would like to thank you all wholeheartedly for your patience and dedication."* (Chwaer, i ddefnyddiwr Cynllun Cymunedol Arfon)

Yn sgil y cynnydd mewn pobl hŷn, bydd cynnydd yn y nifer fydd gyda phroblemau cof. Rhagwelir cynnydd o 35% yn y nifer sydd yn dioddef o ddementia yng Ngwynedd rhwng nawr a 2021. Er ein bod yn ffyddiog y bydd yn bosib cadw nifer fawr o unigolion gyda dementia yn eu cartrefi bydd angen gofal preswyl arbenigol ar gyfer rhai gydag anghenion dwys a chyfleoedd ysbaid er mwyn cefnogi gofalwyr. Gall y cyfleoedd ysbaid yma fod yn gyfnodau o ychydig oriau, diwrnod neu gyfnod o ofal preswyl.




Er mai pobl hŷn yw'r mwyafrif o bobl gyda dementia, mae canran fechan ohonynt yn bobl iau. Mae darparu gwasanaethau addas ar gyfer y bobl yma yn gallu bod yn her yn enwedig mewn ardal wledig ac yn adlewyrchu'r angen i sicrhau hyblygrwydd wrth ymateb i anghenion unigol. Mae swydd "swyddog cefnogol" wedi ei sefydlu yn ardal Meirionnydd ers rhai blynyddoedd bellach er mwyn sicrhau'r hyblygrwydd yma. Y bwriad fydd adolygu effeithlonrwydd y drefn yn ystod 2012/13.

**Cynllun Dementia Anabledd Dysgu**

Mae cynllun arloesol wedi ei lansio yn ardal Arfon yn ddiweddar sy'n gweithio efo oedolion gydag anableddau dysgu sy'n dangos symptomau cynnar dementia i'w cefnogi i fyw bywydau hapus, iach ac ystyrlon. Fel rhan o'r fenter, mae staff o wasanaethau dydd y Cyngor – ynghyd â staff o Fenter Fachwen ac Antur Waunfawr – wedi derbyn hyfforddiant arbenigol gan dîm o seicolegwyr clinigol.

Mae'r staff bellach yn defnyddio eu sgiliau newydd i wella iechyd meddwl y cleientiaid, i adnabod arwyddion cynnar eu bod yn dioddef dementia ac i gefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth a'u teuluoedd i ddygymod â'r cyflwr. Gobeithir cyflwyno'r cynllun i wasanaethau eraill ledled y sir.



**Defnyddiwr gwasanaeth Cynllun Cymunedol Arfon, gyda Swyddog Gofal Dydd**

> "Dros amser, trwy gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau, rydan ni'n gweld pobl yn newid… Efallai nad ydi o'n swnio'n llawer, ond i'r unigolion yr ydan ni'n eu cefnogi ac i'w teuluoedd mae'n newid eu bywydau. Rydan ni'n ei weld o'n gwneud gwahaniaeth aruthrol i hunan barch a hyder pobl." Swyddog Gofal Dydd sy'n gweithio ar Gynllun Cymunedol Arfon.

## Gofal Canolraddol

Cyd-weithir gyda BIPBC i ehangu gwasanaeth gofal canolraddol yn Ne Gwynedd drwy gyflwyno gwasanaeth HECS ( Home Enhanced Care Service ) ym Meirionnydd.

## Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol a Galluogi

Gwelwyd gwelliant yn ein sefyllfa o ran rhestrau aros ond mae angen parhau gyda'r rhaglen wella. Gwelwyd fod nifer fawr o unigolion yn aros am fan addasiadau ac yn dilyn trafodaethau ar y cyd a'r Adran Tai a Chartrefi Cymunedol Gwynedd cytunwyd ar drefn fydd yn caniatáu cyflawni man addasiadau heb asesiad therapydd galwedigaethol. Mae'r drefn yma yn cael cefnogaeth gan gorff proffesiynol therapyddion. Bydd y drefn newydd yn cychwyn yn Ebrill 2012.

Yn ystod y flwyddyn, bu i ni ail strwythuro gwasanaethau oedolion er mwyn cryfhau ein gallu i weithio yn well o fewn ardaloedd. Ein barn yw bod y drefn a gyflwynwyd yn gweithio'n dda ac yn fodd o roi trefn a chefnogaeth ychwanegol i therapyddion maes. Er y cynnydd, penderfynwyd bod rhaid hefyd sicrhau arolygaeth broffesiynol arbenigol ar gyfer y therapyddion er mwyn cadarnhau safonau proffesiynol uchel ac ymyraethau priodol. Adnabuwyd uwch ymarferydd penodol sy'n gallu cynnig y gefnogaeth yma ar lefel sirol. Mi fydd y drefn hefyd yn hwyluso sicrhau cysondeb ar gyfer y gwasanaeth trwy'r sir. Cyflwynir y drefn newydd yn ystod Ebrill 2012.

*"Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch o waelod calon am dy help a dy ymroddiad proffesiynol ag hefyd y ffordd hynaws gartrefol y deliaist hefo fy rhieni, mi a fy mrawd tra n trefnu i fy mam gael gosod cadair ar y grisiau i hwyluso iddi fynd fyny a lawr staer. Roeddet yn hynod o effeithlon ac mae hyn wedi cael cryn argraff ar fywyd fy rhieni yn barod, ac wedi galluogi iddynt aros yn ei gartref ag hefyd wedi helpi i stopio damwain gas yn disgyn i lawr y grisie, a fuasai wedi digwydd fel oedd yr amgylchiadau'n datblygu"* (Teulu defnyddiwr gwasanaeth o'r Bala)



Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y cynllun galluogi ac mae llwyddiant y cynllun yma'n ddibynnol ar gyd weithio effeithiol gyda gofalwyr cartref, therapyddion, aseswyr gofal a gweithwyr cymdeithasol. Ar sail ein profiad, ac wrth adolygu'r ymarfer gorau ym Mhrydain, penderfynwyd cyflwyno swydd benodol "gweithiwr galluogi". Mae'r swyddogion yma wedi derbyn hyfforddiant penodol ac yn golygu bod y defnyddiwr yn gorfod ymdrin â llai o bobl wahanol tra ar yr un pryd yn cyflymu'r broses wrth gyflwyno'r gwasanaeth. Golyga hefyd bod y therapyddion galwedigaethol cymwysedig ar gael ar gyfer yr achosion mwyaf cymhleth. Mae'r drefn, a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn, wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac nid yn unig wedi gwella'n trefn o ran cyflwyno galluogi ond hefyd wedi ein galluogi i leihau ein rhestr aros lle mae angen therapyddion ar gyfer achosion mwy dwys.

Byddwn yn parhau i adolygu'r cydbwysedd sydd ei angen yn y gweithlu ac yn rhagweld yr angen i gynyddu niferoedd staff yn y timau arbedol gyda'r dybiaeth y bydd gofyn inni gynyddu'r nifer o therapyddion galwedigaethol a lleihau nifer y gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio o fewn i'r Adran.

Yn ystod 2012/13 mae yna gytundeb, rhwng BIPBC a Gwasanaethau Cymdeithasol y chwe sir ranbarthol, er mwyn adolygu trefniadau Therapi Galwedigaethol ar y cyd. Mi fydd canlyniad yr adolygiad yma'n cyfrannu at ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Nod yr adolygiad fydd cryfhau cydweithio a defnydd priodol o adnoddau ar draws yr asiantaethau.

## ADOLYGU ACHOSION

Gwelwyd gwelliant sylweddol iawn yn ein perfformiad eleni. Mae cynnal adolygiadau'n bwysig er mwyn sicrhau bod pecynnau a chynlluniau'n addas. Mae sawl rheswm am y gwelliant gan gynnwys bod nifer o'r staff oedd yn sâl tymor hir y llynedd bellach wedi dychwelyd yw gwaith. Gwelwyd cynnydd pellach hefyd yn nhrefniadau casglu ac adrodd ar ddata sydd wedi hwyluso gallu swyddogion i gynllunio a blaenoriaethau eu gwaith.

Gwelwyd y canran o gleientiaid a chaiff adolygiad o'u hachos yn y flwyddyn yn cynyddu'n sylweddol o 62% i dros 70%. Mae hyn yn berfformiad cymharol a'r awdurdodau "teulu" eleni, gyda tharged o wella i fod yn gymharol a pherfformiad Cymru yn ystod y flwyddyn nesaf.

## DIOGELU OEDOLION

Ein prif nod yw sicrhau ein bod yn gallu lleihau'r risg ar gyfer oedolion sydd wedi eu hadnabod yn fregus. Rhwng Mawrth 2010 ac Ebrill 2011 bu'r Heddlu, Iechyd, darparwyr gofal cymunedol, preswyl a nyrsio o bob sector, y trydydd sector a gwasanaethau cymdeithasol fod yn rhan o hyfforddiant lansio polisi Diogelu newydd gyda rhaglen hyfforddi'n cael ei chynnal trwy 2011/12. Bu i 429 o weithwyr dderbyn hyfforddiant yn ystod y flwyddyn gan gynnwys swyddogion a staff o sawl asiantaeth megis cartrefi preswyl a heddlu gogledd Cymru. Er y rhaglen codi ymwybyddiaeth gwelwyd lleihad yn nifer y cyfeiriadau a dderbyniwyd eleni.

Rydym yn hyderus bod trefniadau ar gyfer ymateb ac ymdrin â gweithdrefnau oedolion bregus yn eu lle. Rhagwelir y bydd y gwasanaeth yma'n datblygu ymhellach wrth i'r ddeddfwriaeth "Gwasanaethau Cymdeithasol" cael ei chyflwyno ac y bydd y gweithdrefnau'n cael eu cyflwyno fel rhai statudol.

Y dangosydd hanfodol yw'r canran o achosion lle mae'r perygl i'r unigolyn wedi lleihau. Mae'r dangosydd hwn yn nodi fod perygl wedi ei reoli gyda 98% o'r achosion sydd wedi mynd drwy'r broses eleni. Hyn yn cymharu gyda 78.85% yng Nghymru a 84.89% gyda'r "teulu" o awdurdodau .

## GOFALWYR

Yn ystod 2011/12 rhoddwyd fwy o bwyslais ar ymgysylltu gyda gofalwyr. Llwyddwyd yn y flwyddyn i gynnig asesiad uniongyrchol i bob gofalydd. Yn ystod y flwyddyn gwelwyd cynnydd yn ein gallu i gynnig a chydlynu darpariaethau ac i gynllunio darpariaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae nifer o ffyrdd mae'r Adran yn cysylltu gyda gofalwyr gan gynnwys nifer o'r asiantaethau o'r Trydydd Sector sy'n cael eu comisiynu mewn partneriaeth a'r Adran. Mae'r dulliau cydweithio'n cynnwys ymgynghori gydag unigolion yn uniongyrchol os ydynt yn cael eu heffeithio gan unrhyw ddatblygiad penodol, trafodaethau mewn grwpiau gofalwyr sydd yn cael eu cynnal drwy Cynnal Gofalwyr, gwahoddiad i ddiwrnodau agored neu sesiynau codi ymwybyddiaeth, neu grwpiau ffocws arbennig.




Lansio siarter newydd i Ofalwyr Gwynedd, Porthmadog Rhagfyr 2011

Datblygwyd ein gallu i yrru taenlenni gwybodaeth reolaidd allan at ofalwyr sydd eto'n cael eu heffeithio gan unrhyw ddatblygiad arbennig. Cytunwyd i gomisiynu Cyngor Gofalwyr i ddarparu llyfryn gwybodaeth ar gyfer Gofalwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am y gwasanaethau sydd ar gael.

Yn Rhagfyr 2011, lansiwyd siarter newydd i amddiffyn hawliau gofalwyr yng Ngwynedd. Bwriad y siarter yw diogelu hawliau gofalwyr i fod yn iach a hapus ac i fyw bywyd normal – rhywbeth mae trwch y boblogaeth efallai yn ei gymryd yn ganiataol.

**YMARFER DA - Dweud cyfrolau am gymorth i ofalwyr**

Bydd llawer ohonom yn gyfrifol am ofalu am bartner, perthynas neu gyfaill rhyw dro yn ystod ein bywydau. Mae'n gallu bod yn brofiad gwerth chweil ond hefyd yn gyfnod anodd a blinedig. Mae cyfres o lyfrau nawr ar gael drwy Wasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd gyda'r bwriad o helpu gofalwyr i ddod i ben gyda'u cyfrifoldebau. Mae'r llyfrau ar gael ym mhob un o lyfrgelloedd Cyngor Gwynedd, llyfrgelloedd teithiol a drwy'r gwasanaeth llyfrgell i'r cartref. Mae'r llyfrau yn cynnig arweiniad ymarferol i ofalwyr sy'n gyfrifol am bobl sy'n dioddef pob math o gyflyrau, gan gynnwys:

- Strôc
- Awtistiaeth a syndrome Asperger
- Anabledd corfforol
- Problemau iechyd meddwl

Mae sawl darn o waith pwysig arall fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar ofalwyr ar y gweill:

1. Adolygu trefniadau ysbaid ar gyfer pobl ifanc gydag anableddau corfforol - sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cyd-fynd â gofynion gofalwyr er mwyn gallu gwneud y mwyaf o'r adnoddau.
2. Adolygu trefniadau Gofal dydd Pobl Hŷn ac Anabledd Dysgu.
3. Mae elfen gref o gefnogaeth i ofalwyr yn y gwasanaethau dydd. Byddwn yn rhannu'r cynllun busnes gyda rhanddeiliaid yn ystod 2012/13.
4. Mae safle we gennym ar gyfer gofalwyr ac mae gwaith pellach wedi ei gytuno ar gyfer 2012/13 er mwyn gwneud gwelliannau pellach. Y bwriad fydd edrych ar sut

y bydd gwybodaeth gywir yn gallu caniatáu i unigolion a gymerwyd mwy o reolaeth dros eu lles eu hunain, cael mynediad cynt i wasanaethau priodol a hefyd gwneud gwell defnydd o adnoddau'r Cyngor.

**Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010**

Rydym eisoes wedi dechrau cynllunio ar gyfer effaith y Mesur newydd (http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/5/pdfs/mwa_20100005_we.pdf) er enghraifft drwy sefydlu swydd gofalwyr yn yr ysbyty lem, sef Ysbyty Gwynedd er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion gofalwyr ymhlith staff yr ysbyty a chefnogi gofalwyr sy'n dod i'n sylw gael y gefnogaeth maent ei angen. Mae deilydd y swydd sydd yn weithredol ers Chwefror 2012 yn gweithio'n agos gyda'r tîm gwaith cymdeithasol yn yr ysbyty.

## CYD-WEITHIO

### Cyd-weithio gydag Iechyd

Yn hanesyddol mae cyd weithio a pherthynas waith dda wedi bodoli rhwng gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yng Ngwynedd. Mae'r berthynas rhwng staff maes y ddwy asiantaeth yn parhau yn gryf. Ym maes gwaith oedolion mae datblygiadau lleol (locality working) a pheilot Gweithio'n Hyblyg ardal Meirionnydd wedi caniatáu i hyn barhau a gwella. Cyfeirir hefyd at y cydweithio effeithiol ym maes plant trwy enghraifft gwasanaeth Derwen.

Fodd bynnag, mae'n deg nodi fod dyfodiad BIPBC wedi effeithio ar ein gallu i gyd weithio a datblygu gwasanaethau. Mae hyn yn arwydd o realiti cyflwyno corff sydd yn ymgorffori nifer o fyrddau iechyd blaenorol ar draws Gogledd Cymru. Er bod y sefyllfa wedi gwella eleni o gymharu â 2010/11, mae'r gwaith cydgynllunio a sicrhau ansawdd ar lefel lleol yn parhau'n heriol. Nid yw hyn yn adlewyrchiad ar unrhyw unigolyn ond yn arwydd o realiti cyflwyno corff newydd a'r pwysau adnodd sy'n wynebu bob corff cyhoeddus. Yn ystod 2012/13 byddwn yn parhau i flaenoriaethu adeiladu ar y sylfaen o gyd weithio effeithiol gyda'r nod o gryfhau'r drafodaeth benodol ar anghenion Gwynedd o fewn i'r cyd-destun rhanbarthol. Mae'r cyfeiriad yma wedi ei gytuno gyda swyddogion allweddol yn barod.

### Cyd Weithio gydag Awdurdodau Lleol eraill

Rydym fel gwasanaeth yn ymrwymedig i weithio ar y cyd ac awdurdodau lleol eraill yn y gogledd ac i fanteisio ar bob cyfle i gryfhau ein perthynas a dulliau o weithio er mwyn bod yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Byddwn yn parhau gydag aelodaeth grwpiau rhanbarthol ar draws y gwasanaethau er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael. Mae cyd weithio'n barod wedi dod a chanlyniadau, er enghraifft, yn Ysbyty Gwynedd, gyda threfniadau Teleofal, comisiynu pecynnau drud ar gyfer unigolion gydag anableddau dysgu , tîm allan o oriau ar y cyd ac Ynys Môn. Rydym yn awyddus i adeiladu ar hyn.

# 6. Adolygiad o'r Gwasanaeth Busnes

Mae'r Gwasanaeth Busnes yn gyfrifol am nifer o swyddogaethau i gefnogi'r Adran, gan gynnwys:

- Comisiynu a Chontractau
- Gofal Cwsmer, Gwybodaeth ac Ymgysylltu
- Perfformiad, data a chefnogaeth Technoleg Gwybodaeth
- Gweinyddiaeth a Chefnogi'r Gweithlu
- Datblygu'r Gweithlu
- Rheoli Adnoddau Ariannol

Bwriad y Gwasanaeth Busnes yw cynorthwyo'r Gwasanaethau Oedolion, Plant a Theuluoedd a Thai i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn y cyngor a'r gofal gorau bosib. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn greiddiol o ran sicrhau bod holl adnoddau'r Adran, yn staff a chyllid, yn cael eu rheoli'n gadarn.

**Rheoli Adnoddau Ariannol**

Mae'r Adran wedi llwyddo i dynhau ei rheolaeth dros y gyllideb o £60,863,000 yn 2011-12 ac wedi cadw'r cyfanswm gwariant am y flwyddyn 0.3% tu fewn i'r gyllideb. O ystyried yr hinsawdd ariannol anodd, mae hyn yn ganmoladwy. Mae amrywiadau rhwng cyllideb a gwir wariant yn parhau mewn rhai meysydd gyda'r gwariant ym maes plant yn parhau'n uwch na'r gyllideb. Dros y misoedd nesaf byddwn yn mynd ati i ddadansoddi'r gwahaniaethau hyn, ac addasu ein cyllidebau yn ôl yr angen.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Adran wedi adnabod rhaglen o gynlluniau i arbed £1.8m dros 3 blynedd. Mae hwn yn swm heriol, ond mae'r cynlluniau yn rhai positif ac yn rhoi cyfle i ni ddarparu gwasanaethau newydd, a gwell, sy'n cwrdd â'n gweledigaeth i gadw pobl yn annibynnol a diogel yn eu cymunedau. Tystiwyd gwaith caled ar draws holl feysydd gwaith yr Adran er mwyn adnabod a datblygu'r cynlluniau yma gan roi sylw, nid yn unig i'r arbedion ond sut i gyflwyno gan roi ystyriaeth i'r oblygiadau i'r unigolion hynny sy'n derbyn gwasanaeth. Derbynnir bod rhaid cyflwyno'r rhaglenni arbedion yma wrth ystyried yr oblygiadau a hyrwyddo annibyniaeth ac ystyriaeth risg i'r unigolion.

Mae'r Adran wedi ymrwymo i adolygu ei threfniadaeth a'i strwythurau, i fod yn weithredol erbyn Ebrill 2014, er mwyn sicrhau ei bod yn gwneud y defnydd gorau o'i staff a chyflawni gofynion heriol fydd yn ei hwynebu dros y blynyddoedd nesaf. Bydd yr adolygiad yn cynnwys agweddau amrywiol megis gweithio'n aml-asiantaethol, gweithio'n hyblyg, defnydd o dechnoleg, nifer y safleoedd sy'n ddymunol o safbwynt rheolaeth a chynnig gwasanaeth i'r cwsmer, haenau rheolaethol, llwybr gyrfa a phrosesau busnes. Bydd hyn yn adeiladu ar nifer o gamau sydd wedi eu cymryd dros y blynyddoedd diwethaf i ailstrwythuro ar lefel timau unigol.

Wrth ystyried ein trefniadaeth a'n strwythurau ni i'r dyfodol, byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio â chynghorau ac asiantaethau eraill lle bo hynny'n debygol o arwain at fanteision. Rydym eisoes wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn canolbwynt rhanbarthol ar gyfer prynu lleoliadau preswyl drud ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ac eithrio pobl hŷn.


**Comisiynu a Phartneriaethau**

Tystiwyd cynnydd yn ein rhaglen Comisiynu eleni gyda llawer o gyd weithio effeithiol ar draws yr Adran a gyda phartneriaid. Cyhoeddwyd cynlluniau Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Oedolion ac Anableddau Dysgu. Derbyniwyd cydnabyddiaeth gan arbenigwyr maes bod cynnwys a methodoleg y cynlluniau yma'n cymharu'n ffafriol a chynlluniau tebyg yn genedlaethol. Mae hyn yn cynnig sylfaen ar gyfer y rhaglen waith sy'n parhau ym maes plant a gweddill y rhaglen waith ym maes anableddau corfforol.



Mae'r cynlluniau hyn yn adrodd ar anghenion tebygol dros y 5 mlynedd nesaf, ac yn rhoi gwybodaeth am y mathau o wasanaethau y byddwn yn dymuno eu prynu. Mae'r cynlluniau yn gwneud datganiad pendant y bydd y Cyngor yn prynu o ba bynnag sector fydd yn cynnig yr ansawdd gorau am y pris gorau.

Fel sail i'r cynlluniau comisiynu, mae model mapio anghenion ac adnoddau wedi ei ddatblygu, sy'n arf pwysig am ei fod yn dod â gwybodaeth am weithgaredd (niferoedd), tueddiadau i'r dyfodol, perfformiad a chyllid i gyd at ei gilydd gan ganiatáu i ni gynllunio'n llawer gwell a gweld lle rydym arni o ran gwireddu cynnwys ein cynlluniau comisiynu.




Mae rhaglenni gweithredu ar y cynlluniau comisiynu yma'n cael eu gweithredu o fewn trefniadau Cynllun Tair Blynedd y Cyngor ac yn cyfuno disgwyliadau'r rhaglen arbedion ariannol sydd raid eu cyflawni.

I'r dyfodol, rydym yn awyddus i gryfhau ein trefniadau cyd-gomisiynu â BIPBC. Yn dilyn ailstrwythuro o fewn y Bwrdd Iechyd, mae cydweithio wedi profi i fod yn heriol ar adegau, ond rydym yn anelu i barhau i gryfhau'r berthynas. Dros y flwyddyn ddiwethaf, llwyddwyd i arwyddo Cytundeb Ffurfiol ym maes gwaith Plant Anabl (Cytundeb Adran 33) wrth sefydlu Gwasanaeth Derwen. Mae BIPBC hefyd yn bartner yn y gwaith comisiynu rhanbarthol ym maes lleoliadau mwyaf drud awdurdodau Gogledd Cymru.

Maes arall fydd yn dwyn ein sylw yn y dyfodol fydd datblygiad gwasanaethau ataliol. Trwy gyfrwng cydweithio â phartneriaethau allweddol (yn bennaf y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc), bydd angen diffinio'n eglur pwy sy'n datblygu ac arwain ar yr agenda hwn.

**Comisiynu a Phartneriaethau/ Amrediad gwasanaethau plant.**

Adnabuwyd yr angen i gyflwyno cynllun comisiynu penodol ar gyfer y Gwasanaethau Plant ac mae hon yn rhan o gynllun cyfredol yr Adran gyda'r bwriad o gyflwyno'r cynllun erbyn Medi 2012 o fewn trefniadau Cynllun Tair Blynedd y Cyngor. Bydd y cynllun yma'n rhoi sylw i anghenion y plant hynny sy'n dod i sylw Gwasanaethau Cymdeithasol. Ar yr un pryd mae Cyngor Gwynedd, o fewn trefniadau'r Bartneriaeth Plant, wrthi'n paratoi cynllun comisiynu ar gyfer holl blant Gwynedd.

Bydd y cynllun penodol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn fodd i sicrhau bod anghenion y plant mwyaf anghenus yn derbyn y sylw priodol o fewn i'r cynllun ehangach. Yn ddelfrydol mi fyddai'r gwasanaeth wedi dymuno i'r gwaith yma gael ei gwblhau'n gynt ond yn sgil y rhaglen arbedion heriol rhoddwyd blaenoriaeth i'r rhaglen comisiynu ym maes oedolion lle adnabuwyd yr arbedion mwyaf yn y cyfnod cyntaf.

O ran blaenoriaethau 2012-13, canolbwyntir ar gyflwyno cynlluniau Comisiynu Plant ac Anableddau Corfforol yn ogystal ag adnabod anghenion gweithlu'r dyfodol – fel elfen o'r rhaglen adolygu strwythur yr Adran Ebrill 2014.

**Perfformiad a Rheolaeth Busnes**

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd aruthrol o ran sicrhau well glendid data a chywirdeb ein dangosyddion perfformiad. Rydym hefyd, bellach, yn cynhyrchu nifer helaeth o adroddiadau sy'n cynnwys gwybodaeth reolaethol er mwyn cynorthwyo'r Adran i ddatblygu ac i wella. Datblygwyd trefn adrodd "Cardiau Adrodd" o fewn yr Adran sy'n cyflwyno'r wybodaeth sy'n hwyluso dealltwriaeth a pherthnasedd rheoli perfformiad i brofiad defnyddwyr. Croesawyd y newid pwyslais gan reolwyr o fewn yr Adran ac mae adborth gan swyddogion corfforaethol, aelodau a phartneriaid wedi bod yn gadarnhaol.

Ar gyfer 2012/13 mae'r Cyngor wedi mabwysiadau trefn newydd ar gyfer rheoli perfformiad gan gyflwyno trefn "mesuriadau" . Adnabuwyd blaenoriaethau ar y cyd gyda'r Cyngor ac mi fydd y rhain yn weithredol ar gyfer 2012/13. Rhain fydd yn rhagori o fewn trefniadau'r Cyngor ac maent wedi eu hadnabod a chytuno fel y rhai sy'n fwyaf tebygol o uchafu bydd i breswylwyr Gwynedd sydd angen gwasanaeth gan yr Adran.

Bu mwy o sefydlogrwydd o fewn yr Adran eleni. Dros y blynyddoedd blaenorol roedd oblygiadau ail strwythuro wedi bod yn drwm ar yr Adran a'r swyddogion (Ail Strwythuro a chyflwyno Gwasanaeth Plant 2009/10 / Ail Strwythuro ac uno Gwasanaeth Tai 2010/11). Yn gynyddol mae gwell cysondeb o fewn yr Adran ond gyda'r rhaglen waith yn parhau. Gwelwyd mwy o enghreifftiau o gyd weithio mewn meysydd allweddol megis, digartrefedd pobl ifanc gyda'r tîm ôl 16, lletya iechyd meddwl, cynllunio ar y cyd yn sgil newidiadau Cefnogi Pobl a thrafodaethau cynlluniau cyffroes iawn ym maes offer ac asesu addasiadau.

Mae'r Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei ffurf bresennol yn adran eithaf newydd ac fel y byddid wedi disgwyl, ac mae camau wedi eu cymryd i greu ymdeimlad o undod. Yn ddiweddar rydym yn gweld arwyddion clir bod y Tîm Rheoli Adrannol yn gosod cyfeiriad ac

yn cynnig arweiniad i reolwyr yr Adran ar beth yw'r blaenoriaethau a'u cyfrifoldebau ac i le y dylid cyfeirio adnoddau.

Er mwyn cryfhau'n trefniadau'n ymhellach mae angen ymestyn ymhellach y profiad o gydweithio o fewn yr Ardaloedd. Mae'r rhaglen asedau'r cyngor yn dylanwadu'n gryf ar amserlennu a chyfleoedd o fewn y rhaglen waith yma. Mae mwy o'r timau wedi eu cyd-leoli ym Mhenarlâg, Dwyfor ac Arfon ond nid yw'r rhaglen waith wedi ei gwblhau.

**Defnydd o dechnoleg**

Mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill yng Nghymru, mi fydd Gwynedd angen comisiynu rhaglen gyfrifiadurol newydd gyda'r broses tendro wedi cychwyn ers 2011/12. Bydd rhaid i'r rhaglen yma fod yn gallu ymateb i anghenion defnyddwyr a gwasanaethau'r dyfodol. Mae ein cytundeb presennol gyda'r darparwyr yn dod i ben Ebrill 2014, ond negodi yn parhau gyda'r cyflenwr er mwyn edrych i ymestyn y cytundeb presennol hyd at o leiaf 2015 i sicrhau gwerth am arian o ddatblygiadau i'r system gyfredol.

Bydd rhaid blaenoriaethu ac ymrwymo amser i gynllunio a chomisiynu'r ddarpariaeth fwyaf priodol fel rhan o'r rhaglen waith dros y ddwy flynedd nesaf, tra ar yr un pryd ein bod yn uchafu defnydd o'r systemau sy'n bodoli. Mae'r rhaglen cydweithio a dibyniaeth a'r trefniadau electroneg hefyd yn adnabod yr angen i flaenoriaethu trefniadau rheoli rhannu gwybodaeth sy'n ymateb i ddisgwyliadau defnyddwyr, deddf gwlad a gofynion busnes.

**Arweinyddiaeth a Chefnogaeth Wleidyddol a Chorfforaethol**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Tair Blynedd sy'n amlinellu ei flaenoriaethau, ac mae chwe Bwrdd Rhaglen yn gyfrifol am gyflawni'r buddiannau yr ydym wedi ymrwymo iddynt yn y cynllun hwn. Mae'r trefniadau llywodraethu hyn wedi amlygu ymrwymiad y Cyngor i wireddu newidiadau sylweddol ym maes gofal cymdeithasol.

Derbyniwyd arweiniad a chefnogaeth ddiflino gan Arweinydd Portffolio yn ystod y flwyddyn wrth i ni weithredu ar gynlluniau'r Cyngor mewn meysydd newid heriol iawn ym maes gofal fel i'r cynlluniau comisiynu cael eu gweithredu. Bu angen hefyd ymateb i ddiddordeb cenedlaethol a'r wasg mewn sawl maes. Yn sgil y sylw adolygwyd ein gweithdrefnau a thrafodwyd y materion gyda'r asiantaethau priodol. Datganwyd bod hyder yn weithdrefnau a blaenoriaethau'r Adran a'r Cyngor

Gwelwyd mewnbwn aelodau i raglenni'r gwaith yr Adran gyda Grŵp Tasg Gofal a sawl grŵp tasg a gorffen arall, megis maes trefniadau preswyl Anableddau Dysgu. Dros y flwyddyn ddiwethaf, y mae cyfraniad aelodau etholedig ar ein Byrddau Rhaglen a'r grwpiau tasg, wedi dylanwadu'n bositif ar ein llwyddiant i wella mewn sawl maes.

Mae proffil darpariaeth Cyngor Gwynedd yn parhau'n dra gwahanol i weddill siroedd Cymru ac yn mynd yn groes i'r hyn sydd wedi ei ddatgan fel dymuniad trwch y boblogaeth yn lleol a chenedlaethol. Mae'r proffil ariannol yn parhau i ddwysau a'r angen i fuddsoddi er mwyn cyflwyno darpariaeth o safon sy'n fforddiadwy yn parhau'n her. Mae arafu'r broses yn cynyddu'r risg o ran cynaliadwyedd cynllun ariannol yr Adran a'r Cyngor yng nghyd a'r gofynion amser ar swyddogion wrth weithredu ar y cynlluniau gwaith yma. Mae nifer cynyddol o'r boblogaeth pobl hŷn yn hunan ariannu neu'n cyfrannu at gost eu gofal. Rhaid

sicrhau darpariaethau addas ar y gost gywir. Mi fydd gwireddu ein cynlluniau yn ddibynnol ar dderbyn cefnogaeth wleidyddol.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

O fewn y Cyngor, mae gennym gefnogaeth gref i sicrhau ein bod yn cwrdd â gofynion deddfwriaeth ym maes Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau comisiynu a'n rhaglenni ar gyfer gwneud arbedion effeithlonrwydd, mae hi wedi dod yn gynyddol amlwg bod rhaid i ni godi ymwybyddiaeth ein staff o'r angen i ystyried goblygiadau cydraddoldeb, a phrofi bod asesiadau effaith wedi eu cwblhau yn drwyadl.

Un agwedd bwysig iawn i'r Cyngor yw sicrhau ein bod yn gwasanaethu ein defnyddwyr gwasanaeth drwy'r iaith Gymraeg lle bo galw am hynny, ac rydym yn croesawu'r Fframwaith Strategol ar gyfer y Gymraeg ym maes Iechyd a Gofal, sydd ar fin ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Mae swyddogion yr Adran yn gallu cadarnhau darpariaeth ddwyieithog. Mae cynllun Gweithlu'r Adran hefyd yn rhoi sylw i sgiliau iaith y sector yn ei gyfanrwydd gan gynnig mewnbwn a hyfforddiant. Y bwriad, yn ystod 2012/13 yw datblygu'r rhaglen waith yma'n ymhellach ar y cyd gyda'r Uned Contractau ac mewn partneriaeth a SSIA. Hyn trwy weithio gyda'r sector er mwyn adnabod a chydweithio i ddatrys rhwystrau er mwyn cynyddu ymhellach darpariaeth ddwyieithog yng Ngwynedd

Rydym yn falch o'n hymdrechion i sicrhau bod gwasanaethau ar gael ym mhob iaith leiafrifol pan fo angen, ac o'r gwaith rydym yn ei wneud i sicrhau bod dogfennau allweddol ar gael mewn fformat priodol, megis ein fersiwn hawdd i'w darllen o'r Cynllun Comisiynu Anableddau Dysgu.

**Gofal Cwsmer, Gwybodaeth ac Ymgysylltu**

Un maes lle rydym yn ymwybodol bod angen ystyried ymrwymo mwy o adnoddau yw maes ymgysylltu, er mwyn sicrhau bod yr holl fudd-ddeiliaid perthnasol yn cydweithio â ni yn barhaus ar bob cam o'r daith - o adnabod lle mae angen newid, i asesu opsiynau, gwireddu newidiadau a gwerthuso. Mae ein gweithgaredd ymgysylltu dros y flwyddyn a hanner diwethaf wedi cynyddu llawer iawn, gyda nifer o enghreifftiau positif ohono'n arwain at lwyddiant, ond mae gennym fwy o waith i'w wneud.



Sesiwn ymgysylltu adolygu gofal dydd Porthmadog Medi 2011

Un enghraifft o'r gwaith ymgysylltu yn ystod 2011-12 oedd cynnal sesiwn galw heibio yn Nhywyn yn Nhachwedd 2011. Nod y diwrnod oedd darparu gwybodaeth a chyngor i drigolion am wasanaethau ar gyfer oedolion dros 50 oed yr ardal sy'n hybu annibyniaeth ac yn cadw pobl yn eu cartrefi. Fel rhan o'r sesiwn, roedd gwybodaeth hefyd ar gael am

weithgareddau a digwyddiadau lleol yn yr ardal, cyfleoedd gymdeithasu, cyngor am faterion ariannol, gwybodaeth a chyngor i rai sy'n gofalu am rywun sy'n sâl neu'n anabl a chyngor am faterion iechyd a lles.

> "Mae dyddiau gwybodaeth fel hyn yn allweddol, oherwydd os nad yw pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael ni fyddant yn gallu gwneud defnydd ohonynt." Un o fynychwyr sesiwn galw heibio Tywyn.

## 7. CASGLIADAU

Dengys yr adroddiad blynyddol bod ymdrechion a gwaith sylweddol wedi ei gyflawni o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd dros 2011-12. Fodd bynnag, amlygir hefyd fod gan yr Awdurdod waith heriol iawn o'i flaen dros y blynyddoedd dilynol er mwyn parhau i gynnal a gwella gwasanaethau. Rhaid parhau a chyflymu'r rhaglen waith i drawsffurfio'r ystod ddarpariaeth sydd ar gael ac i fod yn fwy cost effeithiol. Yn sicr, bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd wrth i ni ail-strwythuro ac ail-siapio gwasanaethau er mwyn ymateb i bwysau ariannol.

Un o brif gryfderau Gwynedd yw safon ac ymroddiad diflino'r gweithlu ar draws y sector, gan gynnwys staff y Cyngor a'r holl weithlu o fewn i'r sector Gofal ar draws yr asiantaethau. Gallu a phroffesiynoldeb y gweithlu, mewn perthynas â'r defnyddiwr a'u gofalwyr, yw sylfaen y Gwasanaeth ar gyfer y Cyngor a dinasyddion Gwynedd.

Mi fydd rhaid parhau a'r dasg anodd o resymoli a lleihau gwariant o fewn cyd-destun o ofyn cynyddol a hyn mewn maes o risg uchel sy'n effeithio ar ddiogelwch a phrofiadau personol pell cyrhaeddol.

Rhaid parhau i feithrin diwylliant o gydweithio ac ymddiriedaeth os am lwyddo ac uchafu cyfleon. Rhaid cyfarch yr heriau tra'n cydnabod a dathlu'r hyn sydd wedi ei gyflawni ar gyfer pobl Gwynedd a hefyd y rhai sy'n eu gwasanaethu.

Croesawir cysylltiad uniongyrchol gyda'r Gwasanaeth os am dderbyn mwy o fanylion neu i drafod yr Adroddiad Blynyddol ymhellach. Dylid anfon unrhyw gwestiwn neu sylw i'r Uned Gofal Cwsmer:

Uned Gofal Cwsmer, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl , Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH, e-bost: gcgc@gwynedd.gov.uk ☎: 01286 679 268

## Atodiad 1

## Crynodeb o Berfformiad 2011-12

Bydd y data Crynodeb o Berfformiad 2011-12 i'w weld yn electroneg o Ddydd Llun 18 Mehefin 2012 ymlaen drwy gyfrwng y linc gwefan isod:

**http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=7353&doc=28077&Language=2&p=1&c=1**


Caiff y data ei gyflwyno mewn fformat ffeil PDF o dan yr enw '2011-12 Atodiad 1 - Data Crynodeb Perfformiad' yn rhan Atodiadau ar y dudalen we.

# Atodiad 2

## Cyd-destun a gwybodaeth am Wynedd

Mae sir Gwynedd yn ymestyn dros arwynebedd o 2,548 cilomedr sgwâr, gyda'r prif aneddiadau yng Nghaernarfon, Bangor, Porthmadog, Pwllheli, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau, Y Bala, Abermaw, a Thywyn. Mae'n cymryd oddeutu dwy awr i deithio o ogledd Gwynedd i dde'r sir sy'n golygu taith sy'n gyfanswm o bedair awr. Mae'n golygu y gall teuluoedd deimlo, yn aml iawn, eu bod yn byw yn bell oddi wrth wasanaethau a bod yn rhaid i staff deithio cryn bellter. Rhaid ystyried hyn wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Mae Gwynedd yn ffinio â siroedd Conwy a Dinbych i'r dwyrain, Powys i'r de-ddwyrain a Cheredigion i'r de. Mae'r Sir wedi'i chysylltu ag Ynys Môn i'r gogledd drwy bontydd ffordd a thrên. Gwynedd yw'r Awdurdod Unedol mwyaf yng Nghymru o ran hyd yr arfordir, sy'n ymestyn 301 o gilomedrau.




*Ffigwr 1: Gwynedd ynghyd â chanolfannau poblogaeth*

Yn ôl amcangyfrifon canol-blwyddyn 2010, roedd gan Wynedd boblogaeth o fwy na 119,000. Mae hyn yn cymharu â phoblogaeth gyfartalog o 137,000 ar draws holl awdurdodau lleol Cymru a chyfartaledd o 120,000 ar draws awdurdodau cymharol (Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru 2011). Ers 2001, mae Gwynedd wedi gweld cynnydd yn ei phoblogaeth a rhagwelir y bydd cynnydd cyson hyd at 2033.

Mae'r wybodaeth a ddarperir isod wedi ei rhannu fesul themâu perthnasol i'r maes Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn grynodeb o'r ddogfen Tueddiadau Gwynedd (Medi 2011) a gynhyrchwyd gan Uned Ymchwil a Gwybodaeth, Cyngor Gwynedd;


Yn gyffredinol, gellir datgan y bydd pob un o'r themâu a amlygir isod yn amlwg yn cael effaith uniongyrchol ar y ffordd y byddwn yn cynllunio a darparu gwasanaethau.

**Demograffeg**

1. Mae'r twf ym mhoblogaeth Gwynedd yn ddibynnol ar effaith mewnfudo. Petai'r boblogaeth yn seiliedig ar newid naturiol yn unig yna buasai'r boblogaeth yn gostwng.
2. Mae'r boblogaeth yn heneiddio sydd yn golygu mwy o bwysau a galw am ofal iechyd, gwasanaethau preswyl, tai, pensiynau a gwasanaethau eraill a ddefnyddir gan yr henoed.
3. Rhagamcanir i'r tuedd yma o ran poblogaeth yn heneiddio parhau ar gyfer y dyfodol gyda'r boblogaeth 65+ wedi cynyddu 41% (+9,637 person) erbyn 2033.
4. Bydd y nifer o bobl dros 85 oed yng Ngwynedd wedi cynyddu o 3,240 i 6,050 erbyn 2030. Mae hyn yn gynnydd o 87%.
5. Bydd y nifer o blant a phobl ifanc (0-25 mlwydd oed) yng Ngwynedd yn lleihau 4.2% (-1,606 person) erbyn 2033.
6. Y duedd o ran mudo fewnol ydi (oddi fewn i'r deyrnas unedig) mae pobl ifanc 20-29 mlwydd oed yn mudo o'r Sir tra daw grwpiau hŷn (50-64 mlwydd oed) i mewn i'r Sir.

Gweler o'r pyramid poblogaeth gwahaniaethau sylweddol ym mhroffil y boblogaeth hŷn yng Ngwynedd o ran rhyw gyda nifer sylweddol uwch o fenywod ymysg y boblogaeth 75+oed o gymharu â'r nifer o wrywod.

Yn gyffredinol mae'r boblogaeth yn heneiddio, mae pobl yn byw yn hirach sy'n arwain at y tebygolrwydd o gynnydd yn y galw ar yr Awdurdod a'i bartneriaid am ofal cymdeithasol.




Ffynhonnell: Stats Wales

## Economi

1. Mae'r nifer o bobl sydd yn anweithredol economaidd yn uwch yng Ngwynedd na Chymru a'r Deyrnas Unedig. Mae hyn yn nodwedd o sawl awdurdod gwledig / gorllewinol Cymru.
2. Mae'r nifer sydd yn hawlio Job Seekers Allowance ar hyn o bryd yn gyson yn is na lefel Cymru a'r Deyrnas Unedig.
3. Mae incwm aelwydydd canolrif Gwynedd yn gyson is na chyfartaledd Cymru a Phrydain Fawr. Y trothwy incwm isel a ddefnyddir rhan amlaf yw incwm aelwyd sydd yn 60% neu lai o'r incwm aelwyd canolrif Prydeinig y flwyddyn honno. Yn 2010, roedd yna dros draean o aelwydydd Gwynedd (34.5%) o dan 60% canolrif Prydain Fawr tra bod ychydig llai na thraean (32.6%) o dan chwartel isaf Prydain Fawr.
4. Mae'r gyfran o swyddi llawn amser yn is yng Ngwynedd nag yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, gyda chyflogaeth yn y sector gwasanaethau yn uwch. Yn allweddol, mae lefel llawer uwch o gyflogaeth Gwynedd mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg ac Iechyd.

## Amddifadedd

1. Yn Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC 2011), mae'r mynegrif llawn yn dangos bod pum Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACELI) yn Arfon o fewn y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dengys y data sut mae ardaloedd gwledig yn colli allan ym mynegrif mynediad i wasanaethau a thai.

2. Mae lled gwahaniaeth rhwng wardiau'r Sir o ran incymau canolrif aelwydydd – gyda'r uchaf 79.7% yn uwch na'r isaf.
3. Mae bron i ddeuddeng mil o deuluoedd yn hawlio credyd treth (plant ag allan o waith) yng Ngwynedd. Mae dros ddeunaw mil o blant yn byw mewn teuluoedd sy'n derbyn credyd treth (plant ac allan o waith), gyda dros bedair mil o'r rhain mewn teuluoedd di-waith.
4. Mae cyfraddau hawlwyr budd-daliadau'r sir yn is na'r ffigwr cenedlaethol, ond mae gwahaniaethau mawr rhwng y ffigyrau hynny a'r ardaloedd gwaethaf yng Ngwynedd.
5. Yn unol â natur ddaearyddol y sir, mae 56% o'r ACELl yn y sir yn syrthio o fewn 30% isaf Chymru ar gyfer amddifadedd mynediad daearyddol i wasanaethau.
6. Yn ogystal, mae 85% o ACELI y sir yn ymddangos o fewn 30% isaf Cymru o ran amddifadedd ansawdd Tai

**Tai**

1. Mae'r stoc tai yng Ngwynedd yn llawer hŷn nag yng Nghymru yn gyffredinol gyda bron i hanner y stoc (46.9%) wed ei adeiladu cyn 1919. Gwynedd yw'r 2il uchaf yng Nghymru ar y mesur hwn.
2. Mae 10.5% o'r amcangyfrif o stoc tai'r sir yn anaddas, y 6ed uchaf yng Nghymru.
3. Yn 2010, roedd Gwynedd y 9fed uchaf o holl awdurdodau Cymru o ran prisiau canolrifol (median) tai.
4. Mae'r mathau o deuluoedd a oedd unwaith yn gyffredin yn dod yn fwy prin, ac fe'u disodlwyd gan fathau newydd o deuluoedd yn dilyn ysgariad, ailbriodi a chyd-fyw – Golygai hyn newid yn nefnydd a'r galw oddi fewn i'r stoc tai.

**Iechyd**

1. Mae iechyd yng Ngwynedd yn gyffredinol dda o gymharu â gweddill Cymru.
2. Oni bai am unrhyw gyflwr ar galon ac eithrio pwysedd gwaed uchel, mae'r gyfran o oedolion sy'n cael eu trin am gyflyrau iechyd yng Ngwynedd yn is na neu'n gyfartal a chyfartaledd Cymru. Gyda nifer y cleifion sy'n cael eu trin am salwch meddwl yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru.
3. Mae gor-yfed yn broblem yng Ngwynedd, gyda'r sir y 6ed uchaf yng Nghymru (ynghyd ac Abertawe, Blaenau Gwent, a Torfaen) o ran sesiynau yfed trwm ('binge drinking').
4. Mae gordewdra yn broblem enfawr yng Nghymru, ac yng Ngwynedd mae 57% o oedolion dros eu pwysau (overweight) tra bod 19% yn ordew (obese).
5. Mae'r gyfradd o enedigaethau pwysau geni isel yn is yng Ngwynedd o gymharu â Chymru, ac mae'r gyfradd hefyd wedi lleihau o 1999 i 2009. Gwynedd oedd yr isaf o holl awdurdodau Cymru ar y mesur hwn yn 2009.

6. Er bod ffigyrau disgwyliad oes yng Ngwynedd wedi codi dros y 10 mlynedd diwethaf, gyda'r ffigyrau hefyd yn uwch na ffigyrau disgwyliad oes Cymru yn gyffredinol, mae'r bwlch yn lleihau.

**Addysg a Dysgu**

1. Mae'r nifer o ddisgyblion yn ysgolion Gwynedd yn lleihau, mae cyfartaledd maint dosbarthiadau yn is na chyfartaledd Cymru.
2. Mae disgyblion y sir yn perfformio yn dda iawn o ran arholiadau.
3. Mae Gwynedd yn un o'r siroedd isaf o ran y canran o bobl ifanc sydd ddim mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'r canran ar gyfer disgyblion Blwyddyn 13 wedi cynyddu o 1.8 pwynt canran ers 2008, i ffigwr o 4.9% yn 2009.
4. Yn gyffredinol mae poblogaeth 16-64 mlwydd oed (oed gweithio newydd) Gwynedd yn fwy cymwys na phoblogaeth oed gweithio Cymru.

**Atodiad 3**

# Blaenoriaethau 2012-13

**Gwasanaeth Cymunedol**

Teleofal

Gwasanaeth Dydd

Offer

Gwybodaeth

Gwefan

Llety Addas

Gofal a Thrwsio

Diogelwch Cartref

**Gwasanaethau Cefnogol**

Galluogi

Ysbaid

Telofal

Taliadau Uniongyrchol

Addasiadau/Grantiau Tai

Llety Addas

Gofalwyr

Therapyddion Galwedigaethol

Cytundeb Iechyd

Lleoliadau

**Sicrhau Ansawdd**

Comisiynu Gwasanaethau

Rheoli Perfformiad

Cysoni Safon

**Partneriaid**

IFSS

Dementia

Egwyl Fer

Teleofal

Gofal Canolog

Anableddau Dysgu

Gofal Preswyl

**Rheoli Perfformiad**

Gwaith Craidd a Gwaith Datblygiadiol Mesur Safon

Data

Cynnwys pobl yn y datrysiad

Datblygiad Pellach:

Cardiau Adrodd a Chardiau Record

RBA

# Atodiad 4

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC**<br><br>**CSSIW** | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru<br><br>*Care and Social Services Inspectorate Wales* |
| **SAC**<br><br>**WAO** | Swyddfa Archwilio Cymru<br><br>*Welsh Audit Office* |
| **Gweledigaeth**<br><br>***Vision*** | Mae gweledigaeth yn ystyried lle mae'r sefydliad nawr ac i ba gyfeiriad y mae'n dymuno mynd.<br><br>*A vision statement takes into account the current status of the organisation, and the direction of where the organisation wishes to go.* |
| **Ymgysylltu**<br><br>***Engagement*** | Mae ymgysylltu â defnyddwyr yn golygu cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, partneriaid a'r cyhoedd mewn cynllunio a gwerthuso gwasanaethau a'r broses o wneud penderfyniadau.<br><br>*User engagement means involving service users, partners and the public in planning and evaluating services and decision making* |
| **Canlyniadau'n Cyfrif (RBA)**<br><br>***Results Based Accountability* (RBA)** | Mae'n declyn rheoli ar gyfer gwneud gwasanaethau yn fwy atebol am eu perfformiad, gan gychwyn gyda beth yw'r canlyniadau yr ydym eisiau i'r defnyddiwr. Mae'n rhoi ffocws ar wella gwasanaethau i gymunedau a defnyddwyr drwy ddefnyddio mesurau y gellir eu mesur. Mae cynnwys defnyddwyr, teuluoedd a phartneriaid yn y broses yn allweddol i'r dull hwn o weithio. Gofynnir "a oes unrhyw un ar ei ennill?", a "faint rydym yn ei wneud? A pha mor dda rydym yn ei wneud" er mwyn mesur perfformiad gwasanaethau. Mae'r teclyn RBA wedi ei ddefnyddio yn llwyddiannus mewn mwy na deugain talaith yn UDA, Awstralia, yr Iseldiroedd, Iwerddon a Chile.<br><br>*It is a management tool for making services more accountable for their performance, starting with what outcomes we want for the user. It provides a focus on improving services for communities and users by using measures that can be measured. Involving users, families and partners in the process is key to this method of working. The important questions "isr anyone is better off?" as well as just "how much are we doing and how well we are doing it" are asked in order to measure service performance. The RBA tool has been used successfully in over 40 states in the USA, Australia the Netherlands, Ireland and Chile.* |

| | |
|---|---|
| **Bwrdd Rhaglen**<br><br>***Programme Board*** | Prif gyfrifoldeb Bwrdd Rhaglen ydy sicrhau gweithredu ar raglen benodol ac adnabod a datrys materion sy'n effeithio ac yn rhwystro cyflawni'r rhaglen. Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu 6 Bwrdd Rhaglen i sicrhau gweithredu ar ei brif flaenoriaethau. Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Pobl Fregus er mwyn gweithredu ar brif flaenoriaethau'r Cyngor sy'n ymwneud â'r grŵp penodol hwn. Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol sydd yn gyfrifol am y Bwrdd hwn.<br><br>*A Programme Board's main role is ensuring delivery of a specific programme and identifying and solving issues which affect and obstruct achievement of the programme. Gwynedd Council have established 6 Programme Boards to ensure delivery of its main priorities. A Vulnerable People Programme Board has been established in order to deliver on the Councils key priorities which affect this particular group. The Head of Social Services is responsible for this Board.* |
| **Arweinydd Portffolio**<br><br>***Portfolio Leader*** | Mae gan Aelodau Etholedig ddyletswydd i'r holl Sir, ond mae ganddynt gyfrifoldeb arbennig i'w hetholwyr wrth ddelio â materion lleol. Mae rhai Aelodau Etholedig yn ysgwyddo cyfrifoldebau a dyletswyddau ychwanegol i sicrhau bod penderfyniadau'r Cyngor yn gadarn ac yn dryloyw; gall y dyletswyddau ychwanegol hyn gynnwys cyfrifoldeb dros wasanaethau penodol.<br><br>*Elected Members have a duty to the whole of the County but have a special responsibility to their constituents in dealing with local issues. Some elected members undertake additional responsibilities and duties to ensure the Council's decisions are robust and transparent;, these additional duties can include responsibility over specific services.* |
| **Plentyn mewn Angen**<br><br>***Child in Need*** | Mae Deddf Plant 1989 wedi'i chynllunio i helpu i gadw plant yn ddiogel ac yn iach ac, os oes angen, helpu plant i fyw gyda'u teulu drwy ddarparu gwasanaethau sy'n briodol i anghenion y plentyn. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyffredinol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu ystod o wasanaethau i 'blant mewn angen' yn eu hardal os bydd y gwasanaethau hynny'n helpu cadw plentyn yn ddiogel ac yn iach. Gall 'plentyn mewn angen' fod yn…:<br>➢ anabl<br>➢ annhebygol o gael safon resymol o iechyd neu ddatblygiad heb wasanaethau gan awdurdod lleol, neu'n annhebygol o gael y cyfle, neu<br>➢ annhebygol o weld cynnydd o ran iechyd neu ddatblygiad, neu<br>➢ annhebygol o weld cynnydd o ran iechyd neu ddatblygiad, heb wasanaethau awdurdod lleol<br><br>*The Children Act 1989 is designed to help keep children safe and well and, if necessary, help a child to live with their family by providing services appropriate to the child's needs. The Act imposes a general duty on local councils to provide a range of services to 'children in need' in their area if those services will help keep a child safe and well. A 'child in need' may be…:*<br>➢ *disabled*<br>➢ *unlikely to have, or to have the opportunity to have, a reasonable standard of health or development without services from a local authority; or*<br>➢ *unlikely to progress in terms of health or development; or*<br>➢ *unlikely to progress in terms of health or development, without services from a local authority* |

| | |
|---|---|
| **Asesiad Cychwynnol (Gwasanaeth Plant a Theuluoedd)**<br><br>***Initial Assessment***<br><br>***(Children and Families Services)*** | Mae Asesiad Cychwynnol yn asesiad cryno o amgylchiadau plentyn yn dilyn cyfeiriad at Wasanaethau Cymdeithasol. Diben yr asesiad yw casglu mwy o wybodaeth. Mae Asesiad Cychwynnol yn cael ei gynnal pan fydd cyfeiriad at Awdurdod Lleol yn dangos y gall plentyn fod angen y gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaethau Cymdeithasol. Bydd Asesiad Cychwynnol yn penderfynu a yw plentyn mewn angen ai peidio, a pha wasanaethau fyddai'n cynorthwyo'r plentyn ac a oes angen gwneud Asesiad Craidd mwy manwl ai peidio.<br><br>*An Initial Assessment is a brief assessment of a child's circumstances following a referral to Social Services; the purpose of the assessment is to gather more information. An Initial Assessment is done when a referral to a Local Authority indicates that a child may be in need of services provided by Social Services. An Initial Assessment will determine if a child is in need, what services would assist the child and whether a more detailed Core Assessment needs to be undertaken.* |
| **Asesiad Craidd**<br><br>**(Gwasanaeth Plant a Theuluoedd)**<br><br>***Core Assessment***<br><br>***(Children and Families Service)*** | Mae asesiad craidd yn darparu asesiad strwythuredig a manwl o anghenion plentyn neu berson ifanc pan fo'u hamgylchiadau yn gymhleth. Mae'n caniatáu i weithwyr cymdeithasol gofnodi gwybodaeth a gasglwyd o amrywiaeth o ffynonellau er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer eu barn broffesiynol, hwyluso dadansoddi, gwneud penderfyniadau a chynllunio.<br><br>*A core assessment provides a structured, in-depth assessment of a child or young person's needs where their circumstances are complex. It allows for social workers to record information gathered from a variety of sources to provide evidence for their professional judgments, facilitate analysis, decision making and planning.* |
| **BIPBC**<br><br>***BCUHB*** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br><br>*Betsi Cadwaladr University Health Board* |
| **POVA** | Amddiffyn Oedolion Bregus<br><br>*Protection of Vulnerable Adults* |
| **SSIA** | Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>*Social Services ImprovementAgency* |
| **ICS** | System Integredig Plant<br><br>*Integrated Children's System* |
| **IFSS** | Mae gofyn ar awdurdodau lleol i ddatblygu Gwasanaeth/Timau Integredig Cefnogi Teuluoedd (IFSS) fydd yn wasanaeth fydd yn cael ei ddarparu yn aml asiantaethol yn cynnig cefnogaeth ac asesiad dwys o anghenion mewn teuluoedd ble mae problemau camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, problemau iechyd meddwl, neu yn dioddef trais yn y cartref.<br><br>*Local authorities are required to develop Integrated Family Support Services/Teams (IFSS) which will be a multi-agency provided service offering support and an intensive assessment of needs in families where there are drug or alcohol misuse problems, mental health problems, or suffering domestic violence.* |
| **NYAS** | Gwasanaeth Cenedlaethol Cynghori Ieuenctid (NYAS)<br><br>*National Youth Advisory Service* |

| | |
|---|---|
| **MALIC**<br><br>**WIMD** | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bychain yng Nghymru. Fe'i cynhyrchwyd gan Llywodraeth Cymru. Mae'r Mynegai wedi cael ei datblygu fel offeryn i nodi ac i ddeall amddifadedd yng Nghymru, fel y gall arian, polisi, a rhaglenni canolbwyntio yn effeithiol ar y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae MALIC 2011 yn diweddaru'r Mynegai a gyhoeddwyd yn 2008, heb osod newidiadau methodolegol, ac eithrio lle mae data darpariaeth yn gwneud hyn yn anocheladwy.<br><br>*The Welsh Index of Multiple Deprivation (WIMD) 2011 is the official measure of relative deprivation for small areas in Wales. It was produced by the Welsh Government. The Index was developed as a tool to identify and understand deprivation in Wales, so that funding, policy, and programmes can be effectively focussed on the most disadvantaged communities. WIMD 2011 updates the Index published in 2008, without imposing methodological changes, except where data provision makes this unavoidable.* |

# Atodiad 5

# Cyswllt defnyddiol

**Gwefannau perthnasol**

**Gwefan Cyngor Gwynedd**
www.gwynedd.gov.uk

**Gwefan Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd**
http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=2637&doc=23293&Language=2&p=1&c=1

**Tudalen maethu gwefan Cyngor Gwynedd**
www.gwynedd.gov.uk/maethu

**Gwefan Cyngor Gofal Cymru**
http://www.cgcymru.org.uk

**Gwefan Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru**
http://www.northwalesadoption.gov.uk/welsh/index.cfm

**Gwefan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)**
http://www.wao.gov.uk/cymraeg/home.asp

**Gwefan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**
http://wales.gov.uk/cssiwsubsite/newcssiw/?lang=cy

**Gwefan Gweithredu Dros Blant**
http://www.actionforchildren.org.uk/cymraeg

**Gwefan Plant yng Nghymru**
http://www.plantyngnghymru.org.uk/index.html

**Gwefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**
http://www.bcu.wales.nhs.uk/

**Gwefan Gwasanaeth Cenedlaethol Cynghori Ieuenctid (NYAS)**
http://www.nyas.net/

**Gwefan Gwella Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (SSIA)**
http://www.ssiacymru.org.uk/index.cfm?articleid=4127

**Gwefan Partneriaeth Strategol Plant a Pobl Ifanc**
http://www.gwynedd-ni.org.uk

## Dogfennau perthnasol

**AGGCC (CSSIW) - Arolygiad o'r trefniadau ar gyfer asesu a rheoli gofal plant mewn angen yng Ngwynedd (Mai 2011)**
http://wales.gov.uk/docs/cssiw/report/110607gwyneddcy.pdf

**Uned Ymchwil a Gwybodaeth, Cyngor Gwynedd , Tueddiadau Gwynedd (Medi 2011)**
http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?doc=19996&Language=2&p=1&c=1

**"O Lygad y Ffynnon-Ymestyn Allan at y Gymuned". (Mehefin 2010)**
http://www.nliah.com/portal/microsites/Uploads/Resources/dKLHXhhdX.pdf

**Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010**
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/5/pdfs/mwa_20100005_we.pdf

**Fframwaith Cyflwyno Adroddiadau Blynyddol y Cynghorau (ACRF)**
http://www.ssiacymru.org.uk/media/pdf/h/p/Toolkit__v8_070809_cym.pdf